RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

60/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

16/09/2021

# Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt Ipsos: Adroddiad 2020 ar gyfer Cymru

© Hawlfraint y Goron

ISBN Digidol 978-1-80195-935-3

Teitl: Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt Ipsos: Adroddiad 2020 ar gyfer Cymru

Awduron: Y Tîm Dadansoddwyr Masnach, Ymchwil i Dwristiaeth (Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi)

Yr Adroddiad Ymchwil Llawn: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (2021). *Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt Ipsos: Adroddiad 2020 ar gyfer Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol rhif 16/2021
Ar gael ar: https://llyw.cymru/mynegai-brandiau-cenhedloedd-anholt-ipsos-adroddiad-2020-ar-gyfer-cymru

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn safbwyntiau Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:
Enw: Y Tîm Dadansoddwyr Masnach, Ymchwil i Dwristiaeth
Is-adran: Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ebost: ystadegau.masnach@llyw.cymru / ymchwiltwristiaeth@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o'r tablau ... 2

Rhestr o'r ffigurau ... 4

1. Cefndir ... 6

2. Methodoleg ... 9

3. Casgliadau ... 24

4. Canfyddiadau Cymru o Gymru ... 62

5. Sylwadau Clo ... 66

Cyfeiriadau ... 67

Atodiad A: Amlinelliad o'r Holiadur ... 68

Atodiad B: Safle Cymru a'i sgorau cymedrig a'i sgorau wedi'u trosi ar gyfer y dimensiynau a'r priodoleddau, yn ôl grŵp demograffig ... 71

Atodiad C: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, Canfyddiadau rhyngwladol o ymateb Cymru i argyfyngau gofal iechyd ... 86

**Rhestr o'r tablau**

Tabl 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, Amlinelliad o'r Dimensiynau ....................... 10
Tabl 2: Trosi o raddfa Likert 7 pwynt i sgôr allan o 100 ....................................................... 13
Tabl 3: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, yr 20 o wledydd panel craidd fesul rhanbarth ............................................................................................................................... 14
Tabl 4: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, 50 cenedl y Mynegai fesul rhanbarth ......... 17
Tabl 5: Safle a sgôr gyffredinol Cymru yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad â Chymru, a chyfarwyddineb â Chymru (2020)................. 27
Tabl 6: Cyfarwyddineb cyffredinol â Chymru yn ôl oed a galwedigaeth (%) (2020) ............. 28
Tabl 7: Ffafrioldeb tuag at Gymru yn ôl Oed, Galwedigaeth, Cysylltiad â Chymru a Chyfarwyddineb â Chymru (2020).......................................................................... 32
Tabl 8: Safle a Sgôr Cymru ar gyfer Allforion (2020) .......................................................... 40
Tabl 9: Sgôr a safle Cymru ar gyfer *Allforion* yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad â Chymru a chyfarwyddineb â Chymru (2020) ..................................................................... 42
Tabl 10: Safle a Sgôr Cymru ar gyfer Llywodraethu (2020) ................................................. 44
Tabl 11: Safle a sgôr Cymru ar gyfer Llywodraethu yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad â Chymru a chyfarwyddineb â Chymru (2020) .......................................................... 45
Tabl 12: Safle a sgôr Cymru ar gyfer Diwylliant (2020)........................................................ 48
Tabl 13: Safle a sgôr Cymru ar gyfer Diwylliant yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad â Chymru a chyfarwyddineb â Chymru (2020)......................................................................... 49
Tabl 14: Safle a Sgôr Cymru ar gyfer Pobl (2020) ................................................................ 51
Tabl 15: Safle a sgôr Cymru ar gyfer *Pobl* yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad â Chymru a chyfarwyddineb â Chymru (2020) ..................................................................... 52
Tabl 16: Safle a Sgôr Cymru ar gyfer Twristiaeth (2020) ..................................................... 54
Tabl 17: Safle a sgôr Cymru ar gyfer Twristiaeth yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad â Chymru a chyfarwyddineb â Chymru (2020) .......................................................... 55
Tabl 18: Safle a sgôr Cymru ar gyfer Mewnfudo a Buddsoddi (2020).................................. 57
Tabl 19: Safle a sgôr Cymru ar gyfer Mewnfudo a Buddsoddi yn ôl Oed, Galwedigaeth, Cysylltiad â Chymru a Chyfarwyddineb â Chymru (2020) ...................................... 58
Tabl 20: Pa sgôr a roddodd Cymru iddi ei hun ar gyfer pob dimensiwn a phriodoledd, yn ôl safle a sgôr (2020) ............................................................................................. 63
Tabl B.1: Safle Cymru a'i sgorau cymedrig a'i sgorau wedi'u trosi ar gyfer priodoleddau *Diwylliant* yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb (2020) .................. 71

Tabl B.2: Safle Cymru a'i sgorau cymedrig a'i sgorau wedi'u trosi ar gyfer priodoleddau Allforion yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb (2020) .................... 73
Tabl B.3: Safle Cymru a'i sgorau cymedrig a'i sgorau wedi'u trosi ar gyfer priodoleddau *Llywodraethu* yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb (2020)............ 75
Tabl B.4: Safle Cymru a'i sgorau cymedrig a'i sgorau wedi'u trosi ar gyfer priodoleddau Mewnfudo a Buddsoddi yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb (2020) ........................................................................................................... 78
Tabl B.5: Safle Cymru a'i sgorau cymedrig a'i sgorau wedi'u trosi ar gyfer priodoleddau Pobl yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb (2020) .................................. 81
Tabl B.6: Safle Cymru a'i sgorau cymedrig a'i sgorau wedi'u trosi ar gyfer priodoleddau Twristiaeth yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb (2020)................ 83
Tabl C.1: Sgorau cymedrig uchaf y gwledydd panel craidd ar gyfer y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd .......................................................................... 88
Tabl C.2: Sgorau cymedrig isaf y gwledydd panel craidd ar gyfer y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd .......................................................................... 88
Tabl C.3: Sgorau cymedrig uchaf y gwledydd panel craidd ar gyfer ymweld â Chymru, ar sail y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd ............................ 89
Tabl C.4: Sgorau cymedrig isaf y gwledydd panel craidd ar gyfer ymweld â Chymru, ar sail y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd .................................... 89

**Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, Map o'r 20 o wledydd panel craidd .......... 15
Ffigur 2: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, map o 50 cenedl y Mynegai a fesurwyd, fesul rhanbarth .......... 18
Ffigur 3: Safle Cyffredinol Cymru yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd Fesul Gwlad Banel Graidd (2020) .......... 25
Ffigur 4: Cyfarwyddineb â Chymru yn ôl gwlad banel (%) (2020) .......... 30
Ffigur 5: Ffafrioldeb tuag at Gymru, sgôr y gwledydd panel (2020) .......... 34
Ffigur 6: Ffafrioldeb tuag at Gymru, safle'r gwledydd panel (2020) .......... 35
Ffigur 7: Safleoedd Cyffredinol Cymru yng Nghyswllt y Mynegai a'r Dimensiynau (2020) 36
Ffigur 8: Sgorau Cyffredinol Cymru yng Nghyswllt y Mynegai a'r Dimensiynau (2020) .... 37
Ffigur 9: Safleoedd Cyffredinol Cymru yng Nghyswllt y Mynegai a'r Dimensiynau yn ôl Gwlad Banel a Rhanbarth (2020) .......... 38
Ffigur 10: Mesur Enw Da Byd-eang Cymru, 2020 .......... 39
Ffigur 11: Y geiriau a gysylltir â Chymru – Allforion, Cynnyrch neu wasanaethau a gaiff eu cysylltu â Chymru (2020) .......... 43
Ffigur 12: Y geiriau a gysylltir â Chymru – Llywodraethu, Ansoddeiriau a gaiff eu cysylltu â llywodraeth yng Nghymru (2020) .......... 47
Ffigur 13: Y geiriau a gysylltir â Chymru – Diwylliant, Gweithgareddau neu gynnyrch a gaiff eu cysylltu â Chymru (2020) .......... 50
Ffigur 14: Y Geiriau a Gysylltir â Chymru – Pobl, Ansoddeiriau a Gaiff eu Cysylltu â Phobl Cymru (2020) .......... 53
Ffigur 15: Y geiriau a gysylltir â Chymru – Twristiaeth, Ansoddeiriau a ddewiswyd i ddisgrifio ymweld â Chymru (2020) .......... 56
Ffigur 16: Y geiriau a gysylltir â Chymru – Mewnfudo a Buddsoddi, Ansoddeiriau a ddewiswyd i ddisgrifio amodau economaidd ac amodau busnes yng Nghymru (2020) .......... 59
Ffigur 17: Enw da Cymru ar draws y 23 o briodoleddau yn ôl safle (2020) .......... 61
Ffigur 18: Prif bryderon Cymru ar lefel fyd-eang (2020) .......... 65
Ffigur C.1: Y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau iechyd (%) (gan gynnwys COVID-19) (2020) .......... 86

Ffigur C.2: Ymatebwyr y Mynegai Brandiau Cenhedloedd a fyddai'n teimlo yn gyffyrddus wrth ymweld â Chymru yn ystod y pum mlynedd nesaf (%) (2020) .........................87

# 1. Cefndir

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu casgliadau tanysgrifiad Llywodraeth Cymru i Fynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 er mwyn mesur enw da Cymru ar lefel ryngwladol a domestig. Arolwg panel byd-eang ar-lein a gynhelir yn flynyddol yw'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd, sy'n archwilio delwedd 50 o genhedloedd. Yn 2020, cafodd yr arolwg ei gynnal mewn 20 o wledydd panel craidd. Roedd y gwledydd panel craidd hynny'n cynrychioli economïau datblygedig o bwys ac economïau newydd sy'n chwarae rôl bwysig ac amrywiol o safbwynt masnach a chysylltiadau rhyngwladol ac o safbwynt llif gweithgareddau ym maes busnes, diwylliant a thwristiaeth.

1.2 Ugain ar hugain oedd y tro cyntaf i Gymru gael ei chynnwys ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt Ipsos. Mae'r casgliadau ar gyfer Cymru, a gyflwynir yn yr adroddiad hwn, yn adlewyrchu safbwyntiau a barn poblogaeth ar-lein yn yr 20 o wledydd panel craidd yn ystod cyfnod y gwaith maes, a dylid eu hystyried yn ddarlun sydyn o ganfyddiadau ar y pryd.

1.3 Nod y Mynegai Brandiau Cenhedloedd yw asesu enw da a delwedd gyffredinol gwlad ar draws chwe dimensiwn cymhwysedd cenedlaethol, y caiff pob un ohonynt eu trin yn gyfartal. Dyma'r chwe dimensiwn: 'Allforion', 'Llywodraethu', 'Diwylliant', 'Pobl', 'Twristiaeth' a 'Mewnfudo a Buddsoddi'. Roedd cynnwys Cymru ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 yn seiliedig ar ddwy elfen: sut y caiff Cymru ei gweld gan sampl ar-lein o ymatebwyr o'r 20 o wledydd panel craidd; a sut y caiff Cymru ei gweld gan sampl ar-lein o ymatebwyr sy'n byw yng Nghymru.

1.4 Mae'r modd y caiff gwlad ei gweld ar lefel ryngwladol yn gallu effeithio ar ei chysylltiadau â gwledydd eraill ac ar ei hymdrechion ym maes busnes, masnach a thwristiaeth. Gan gydnabod hynny, mae Strategaeth Ryngwladol Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru 2020) yn disgrifio Cymru fel gwlad fach ag uchelgais mawr. Mae'r Strategaeth yn nodi tri nod craidd a'i gweledigaeth ar lefel ryngwladol ar gyfer y pum mlynedd nesaf, er mwyn helpu Cymru i fod mewn sefyllfa i allu ymdopi â heriau'r dyfodol; sef: codi proffil Cymru ar y llwyfan rhyngwladol; tyfu'r economi drwy gynyddu allforion a denu buddsoddiadau o'r tu allan; a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

1.5 Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn egluro pum Ffordd o Weithio ar gyfer y cyrff cyhoeddus a restrir, er mwyn gwireddu'r weledigaeth a nodir dan saith Nod Llesiant y Ddeddf; y weledigaeth yw helpu i "greu Cymru yr ydym i gyd eisiau byw ynddi, nawr ac yn y dyfodol" (Llywodraeth Cymru 2015). Mae'r nodau sy'n ymwneud â sicrhau 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang' a 'Cymru lewyrchus', er enghraifft, yn amcanion sylfaenol llywodraeth dan y Ddeddf; a nodwyd bod annog y cyhoedd i gyfranogi yn allweddol er mwyn cyflawni'r saith nod.

1.6 Wrth ymateb i'r nod sy'n ymwneud â sicrhau 'Cymru lewyrchus', mae Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi gan Lywodraeth Cymru yn ceisio gwella strwythurau economaidd Cymru. Yn ogystal â chyfeirio at heriau strwythurol enfawr o fewn economi Cymru, caiff heriau allanol eu nodi hefyd, megis: ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE); y cyfleoedd a'r heriau wrth i Gymru newid i economi carbon isel; a phwysigrwydd meithrin brand unol ar gyfer Cymru fel lle i fuddsoddi, gweithio, byw ac astudio ynddo ac i ymweld ag ef.

1.7 Mewn cyd-destun byd-eang cyfnewidiol, sy'n cynnwys yr ansicrwydd sy'n deillio o effeithiau COVID-19, mae angen deall yn well sut y caiff Cymru ei gweld gan wledydd eraill. Mae pwysoliad chwe dimensiwn cymhwysedd cenedlaethol y Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn gyfartal. Yn unigol, mae'n bosibl bod y casgliadau ynghylch safle a sgorau ar gyfer Cymru yn cyfleu negeseuon gwahanol am enw da Cymru. Ond gyda'i gilydd, mae'r safle a'r sgorau yn rhoi darlun cyffredinol o enw da gwlad:

- Mae'r **safle** yn rhoi gwybodaeth am enw da gwlad o'i chymharu â gwledydd eraill, a gall newid dros gyfnod ar sail perfformiad gwledydd eraill.
- Gellir ystyried bod y **sgôr** yn ddangosydd o enw da gwlad, a gellir ei defnyddio i olrhain enw da gwlad dros gyfnod.

1.8 Mae data'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn rhoi darlun sydyn o agweddau pobl at Gymru a'u canfyddiadau o Gymru. Gall data fel hyn am agweddau wella dealltwriaeth o sut y caiff Cymru ei gweld ar lefel ryngwladol a beth yw barn pobl

yng Nghymru am y wlad y maent yn byw ynddi, gan helpu i feithrin dealltwriaeth well o enw da Cymru yn fyd-eang ac yn fewnol.

1.9 Nid yw'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn werthusiad o Lywodraeth Cymru nac o unrhyw asiantaeth gyflawni/cangen o weithgarwch llywodraeth ac nid yw'n ddangosydd o berfformiad llywodraeth. Arolwg byr am Gymru, yn ei ystyr ehangaf, yw'r Mynegai. Dylai'r data gael ei ddarllen yn ei gyd-destun a'i ddeall yn rhan o wybodaeth economaidd-gymdeithasol arall am y modd y mae nodau Llywodraeth Cymru yn cael eu cyflawni. Caiff rhagor o fanylion am ystyriaethau a chyfyngiadau data'n ymwneud â'r ymchwil eu darparu yn yr adran Methodoleg.

**Strwythur yr Adroddiad**

1.10 Mae strwythur yr adroddiad fel a ganlyn:

- Roedd y paragraffau blaenorol ynghylch Cefndir yn cyflwyno gwybodaeth gyd-destunol am y rhesymau pam y cafodd Cymru ei chynnwys ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020.
- Mae'r adran Methodoleg yn egluro nodau ac amcanion a dull methodolegol yr ymchwil, ac mae'n cynnwys crynodeb o ystyriaethau a chyfyngiadau data y dylid eu cadw mewn cof wrth ddehongli'r casgliadau ar gyfer Cymru.
- Mae'r adran Casgliadau yn amlinellu'r prif gasgliadau ar sail dadansoddiad o ddata cryno a ddarparwyd gan y cyflenwr, sef Ipsos USA.
- Mae'r adran Sylwadau clo yn rhoi trosolwg o brif gasgliadau'r ymchwil ac yn amlinellu'r sylwadau clo ar gyfer Cymru.

## 2. Methodoleg

2.1 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r dull methodolegol a'r gweithdrefnau rheoli ansawdd a fabwysiadwyd gan Ipsos ar gyfer arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020. Caiff yr arolwg ei gynnal bob blwyddyn – cynhaliwyd yr un cyntaf yn 2008 – ac mae Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt Ipsos yn archwilio delwedd 50 o genhedloedd. Bob blwyddyn, caiff arolwg ei gynnal ar-lein o oddeutu 20,000 o oedolion 18 oed a hŷn mewn 20 o wledydd panel craidd. Tanysgrifiodd Llywodraeth Cymru i gynnwys Cymru yn yr arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd ar gyfer 2020.

2.2 Cafodd arolwg y Mynegai ei gynnal gan GfK Social and Strategic Research tan 10 Hydref 2008, pan gafodd y gwasanaeth ei gaffael gan Ipsos Public Affairs mewn partneriaeth â Simon Anholt.

2.3 Datblygodd Simon Anholt y Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn 2005 fel ffordd o fesur delwedd ac enw da cenhedloedd ac olrhain eu proffiliau dros gyfnod, a daeth yn bartner i GfK Public Affairs yn 2008 er mwyn cynnig Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt-GfK Roper. Roedd y gwasanaeth Mynegai ehangach hwn yn rhoi gwybodaeth i lywodraethau a'u hasiantaethau am enw da gwlad. Mae Ipsos wedi ymdrechu'n weithredol i sicrhau bod methodoleg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 yn debyg i fethodoleg astudiaethau blaenorol y Mynegai, er enghraifft o safbwynt cynnwys yr holiadur, y modd y caiff y sampl ei dylunio, y technegau samplu, y gweithdrefnau ar gyfer gwaith maes, y pwysoliad, a'r modd y caiff y data ei brosesu. Diben hynny yw hwyluso cymariaethau rhwng blynyddoedd.[1] Mae trosolwg o holiadur Mynegai 2020 i'w weld yn Atodiad A.

### Data'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd

2.4 Caiff tair lefel o ddata eu cyflwyno yn yr adroddiad hwn. Ar lefel y Mynegai, mae'r data yn mesur enw da a delwedd gyffredinol 50 o genhedloedd y Mynegai, sef

[1] Mae'r modd y caiff astudiaeth y Mynegai ei rhoi ar waith yn dilyn arferion a gymeradwywyd gan Gymdeithas America ar gyfer Ymchwil i Farn Gyhoeddus a Chyngor America o Sefydliadau Ymchwil drwy Arolygon, sy'n cynrychioli ac yn pennu safonau ar gyfer y diwydiant arolygon barn.

cyfartaledd y chwe dimensiwn a gaiff eu hasesu yn yr arolwg: ‘Allforion’, ‘Llywodraethu’, ‘Diwylliant’, ‘Pobl’, ‘Twristiaeth’ a ‘Mewnfudo a Buddsoddi’.

2.5 Ar lefel y dimensiynau, mae’r ffigyrau cyffredinol ar gyfer pob dimensiwn unigol yn gyfuniad o ganlyniadau priodoleddau, sydd wedi’u grwpio yn ôl thema’r dimensiwn. Er enghraifft, y ffigyrau ar gyfer ‘Allforion’ yw cyfartaledd yr ymatebion i’r tri chwestiwn sy’n ymwneud ag ‘allforion’.

2.6 Ar lefel y priodoleddau, y ffigyrau yw’r canlyniadau o ddatganiadau unigol y gofynnwyd i’r ymatebwyr ymateb iddynt yn yr arolwg. Er enghraifft, un o’r tri chwestiwn/datganiad ar gyfer ‘Allforion’ oedd “Mae Cymru yn lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl”.

2.7 Mae disgrifiad o bob un o’r chwe dimensiwn a’u priodoleddau sylfaenol neu’u meysydd cwestiynau i’w weld yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, Amlinelliad o’r Dimensiynau**

| **Dimensiwn** | **Y priodoleddau a fesurwyd** |
|---|---|
| Allforion | 1) A yw’r ymatebwyr yn teimlo’n well/yn waeth ynglŷn â phrynu cynnyrch/gwasanaethau, o wybod eu bod yn dod o bob un o’r cenhedloedd<br>2) Barn yr ymatebwyr am gyfraniad cenedl at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg<br>3) A yw’r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl |
| Llywodraethu | 1) A yw’r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn cael ei llywodraethu’n gymwys ac yn onest<br>2) A yw’r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg<br>3) A yw’r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn ymddwyn yn gyfrifol o safbwynt heddwch a diogelwch rhyngwladol<br>4) A yw’r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn gwarchod yr amgylchedd<br>5) A yw’r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn helpu i leihau tlodi yn y byd |

| | |
|---|---|
| Diwylliant | 1) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn rhagori ym maes chwaraeon<br>2) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod gan bob cenedl dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog<br>3) A yw'r ymatebwyr yn ystyried bod pob cenedl yn lle diddorol/cyffrous ar gyfer diwylliant cyfoes megis cerddoriaeth, ffilmiau, celf a llenyddiaeth |
| Pobl | 1) A fyddai'r ymatebwyr yn hoffi cael person o bob cenedl yn ffrind agos iddynt<br>2) A oedd yr ymatebwyr yn teimlo y byddai pobl o bob cenedl yn estyn croeso cynnes iawn iddynt<br>3) Parodrwydd yr ymatebwyr i gyflogi pobl â chymwysterau da o bob cenedl |
| Twristiaeth | 1) A fyddai'r ymatebwyr yn hoffi ymweld â chenedl pe na bai arian yn broblem<br>2) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol<br>3) A yw'r ymatebwyr yn credu bod pob cenedl yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion<br>4) A yw'r ymatebwyr yn credu bod gan bob cenedl fywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol |
| Mewnfudo a Buddsoddi | 1) Parodrwydd yr ymatebwyr i fyw a gweithio am gyfnod hir ym mhob cenedl<br>2) A yw'r ymatebwyr yn ystyried pob cenedl yn fan lle mae ansawdd bywyd yn uchel<br>3) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn lle da i astudio ar gyfer cymwysterau addysgol<br>4) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod gan bob cenedl fusnesau yr hoffent fuddsoddi ynddynt<br>5) A yw'r ymatebwyr yn teimlo bod pob cenedl yn poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas |

2.8 Caiff data ei gyflwyno mewn dau fformat yn yr adroddiad hwn:

- Safle: Cafodd 50 o genhedloedd eu cynnwys ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020. Os caiff safle ei nodi ar gyfer Cymru mae'n cyfeirio at safle'r genedl rhwng 1 a 50, lle 1 yw'r safle uchaf o blith pob un o'r 50 cenedl a fesurwyd.
- Sgôr: Caiff sgôr y Mynegai ei chyflwyno fel cyfartaledd y chwe sgôr ar gyfer dimensiynau, allan o 100.
    - Ar lefel y dimensiynau, sgôr pob dimensiwn yw cyfartaledd y sgorau ar gyfer y datganiadau/cwestiynau ynghylch priodoleddau, wedi'i drosi i mewn i raddfa o 1 i 100.
    - Cafodd rhwng tri a phump o briodoleddau eu defnyddio i gyfrifo'r sgorau ar gyfer pob dimensiwn (gweler Tabl 1). Ymatebodd yr ymatebwyr i'r datganiadau ar gyfer pob priodoledd a fesurwyd ar raddfa Likert o 1.0 i 7.0, lle 1.0 oedd yr isaf a'r gwaethaf a 7.0 oedd yr uchaf a'r gorau (a lle 4.0 oedd y safle niwtral yn y canol). Er mwyn ei gwneud yn haws darllen yr holl gasgliadau o'r datganiadau unigol ynghylch priodoleddau, a'r sgôr gyffredinol wedi'i mynegeio ar gyfer pob dimensiwn, mae'r cyfartaledd cymedrig o'r raddfa Likert 7 pwynt ar gyfer pob un o'r priodoleddau wedi'i drosi yn sgôr allan o 100, sy'n adlewyrchu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd gan Ipsos-Mori i drosi sgorau ar gyfer priodoleddau yn sgôr gyffredinol ar gyfer dimensiwn. Caiff y sgorau a droswyd eu hamlinellu yn Nhabl 2.[2] Caiff y cymedr graddfa Likert ar gyfer pob datganiad ynghylch priodoledd, yn ôl safle a sgorau dimensiwn, ei gyflwyno yn Atodiad B.
    - Ar ddechrau'r arolwg, gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio eu cyfarwyddineb â 50 o genhedloedd y Mynegai. Cafodd eu cyfarwyddineb ei fesur ar raddfa Likert 5 pwynt, lle 1.0 oedd y cyfarwyddineb gwaethaf neu'r sgôr isaf ar gyfer cyfarwyddineb ("erioed wedi clywed amdani") a lle 5.0 oedd y cyfarwyddineb gorau neu'r sgôr uchaf ar gyfer cyfarwyddineb ("yn gyfarwydd iawn") (gweler

[2] Oherwydd bod sgorau'n cael eu trosi i raddfa o 1 i 100, ac nid graddfa o 0 i 100, ni ellir cyflwyno casgliadau ar gyfer dimensiynau a phriodoleddau ar ffurf canrannau.

Atodiad A). Caiff cyfarwyddineb ei gyflwyno fel canran yr ymatebwyr a oedd o leiaf yn gwybod rhywfaint am Gymru.

- At hynny, gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio eu ffafrioldeb tuag at 50 o genhedloedd y Mynegai. Cafodd ffafrioldeb ei fesur ar raddfa Likert 7 pwynt, lle 1.0 oedd agwedd eithriadol o anffafriol neu'r sgôr isaf ar gyfer ffafrioldeb a lle 7.0 oedd agwedd eithriadol o ffafriol neu'r sgôr uchaf ar gyfer ffafrioldeb. Caiff lefelau ffafrioldeb tuag at Gymru eu cyflwyno fel y sgôr gymedrig allan o 7.0.

**Tabl 2: Trosi o raddfa Likert 7 pwynt i sgôr allan o 100**

| Graddfa Likert 7 pwynt | Sgôr wedi'i throsi, 1 i 100 |
|---|---|
| 1.0 | 1.00 |
| 2.0 | 17.50 |
| 3.0 | 34.00 |
| 4.0 | 50.50 |
| 5.0 | 67.00 |
| 6.0 | 83.50 |
| 7.0 | 100.00 |

### Y Modd y Cafodd y Sampl ei Dylunio a Gwaith Maes

*Gwledydd panel yr arolwg*

2.9 Cymerodd tua 20,000 o ymatebwyr o 20 o wledydd panel craidd ran yn arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020. Cafodd yr 20 o wledydd panel craidd eu dewis mewn modd a oedd yn sicrhau cydbwysedd rhanbarthol a chymysgedd o wledydd ag incwm uchel ac incwm canolig, o ystyried y rôl gynyddol y mae cenhedloedd datblygol yn ei chwarae yn y byd. Bu Ipsos hefyd yn ystyried cysondeb rhwng y naill arolwg a'r llall. Roedd yr 20 o wledydd panel craidd a oedd yn rhan o'r arolwg yn 2020 yr un fath â'r gwledydd a oedd yn rhan ohono yn ystod blynyddoedd blaenorol.

2.10 Caiff yr 20 o wledydd panel craidd eu rhestru fesul rhanbarth yn Nhabl 3.


**Tabl 3: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, yr 20 o wledydd panel craidd fesul rhanbarth**

| Rhanbarth | Is-ranbarth | Gwledydd |
|---|---|---|
| Gogledd America | | Canada, Yr Unol Daleithiau |
| Ewrop | Gorllewin Ewrop | Ffrainc, Sweden, Y Deyrnas Unedig, Yr Almaen, Yr Eidal |
| | Canol a Dwyrain Ewrop | Gwlad Pwyl, Rwsia, Twrci |
| Asia a'r Môr Tawel | | Awstralia, De Corea, India, Japan, Tsieina, |
| America Ladin | | Ariannin, Brasil, Mecsico |
| Y Dwyrain Canol / Affrica | | De Affrica, Yr Aifft, |

2.11 Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu safbwyntiau a barn poblogaethau ar-lein yn y gwledydd a restrir yn Nhabl 3.

2.12 Mae map sy'n nodi'r 20 o wledydd panel craidd fesul rhanbarth i'w weld yn Ffigur 1.

**Ffigur 1: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, Map o'r 20 o wledydd panel craidd**



*Cymru fel yr 21ain wlad banel*

2.13 Cafodd Cymru ei chynnwys fel 21ain wlad banel briodol ychwanegol er mwyn archwilio sut y mae Cymru yn ei gweld ei hun. Cafodd sampl ychwanegol o 500 o ymatebwyr ymhlith y boblogaeth ar-lein sydd yng Nghymru yr un cwestiynau â'r gwledydd panel craidd.[3] Nid yw'r ffigyrau hynny wedi'u cynnwys yn safleoedd a chyfansymiau sgorau Cymru a gyflwynir yn yr adran Casgliadau isod.

2.14 Cafodd yr arolwg ei gynnal yn ddwyieithog yng Nghymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cwblhaodd 8 o ymatebwyr yr arolwg yn Gymraeg a 492 o ymatebwyr yr arolwg yn Saesneg.

*Cwestiynau am argyfyngau gofal iechyd*

2.15 Am y tro cyntaf, roedd Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 yn cynnwys cwestiynau ychwanegol a oedd yn canolbwyntio ar ganfyddiadau rhyngwladol o ymatebion gwledydd i argyfyngau gofal iechyd, gan gynnwys COVID-19. Caiff y casgliadau a oedd yn deillio o'r cwestiynau hynny eu cyflwyno yn Atodiad C.

*Cenhedloedd y Mynegai Brandiau Cenhedloedd*

2.16 Roedd Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 yn mesur delwedd 50 o genhedloedd. Cafodd yr 50 o genhedloedd hynny eu cynnwys ar sail eu pwysigrwydd gwleidyddol ac economaidd, ac er mwyn adlewyrchu cydbwysedd rhanbarthol. Cafodd amrywiaeth systemau gwleidyddol ac economaidd ei ystyried hefyd, ond i raddau llai. Cafodd buddiannau'r sefydliadau sy'n tanysgrifio i'r Mynegai eu hadlewyrchu hefyd yn y cenhedloedd a ddewiswyd i fod yn rhan o'r Mynegai. Caiff yr 50 o genhedloedd a oedd yn rhan o'r Mynegai eu rhestru fesul rhanbarth yn Nhabl 4.


[3] Ar gyfer Llywodraeth Cymru yn unig y mae'r data a gasglwyd oddi wrth yr ymatebwyr hyn. Felly, nid yw'r wybodaeth dan sylw wedi'i rhannu ag unrhyw sefydliadau eraill a oedd wedi tanysgrifio i Fynegai Brandiau Cenhedloedd 2020.

**Tabl 4: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, 50 cenedl y Mynegai fesul rhanbarth**

| Rhanbarth | Gwledydd |
|---|---|
| Gogledd America | Canada, Yr Unol Daleithiau |
| Gorllewin Ewrop | Awstria, Cymru, Ffrainc, Gogledd Iwerddon, Gwlad Belg, Gwlad Groeg, Iwerddon, Norwy, Sbaen, Sweden, Y Deyrnas Unedig, Y Ffindir, Y Swistir, Yr Alban, Yr Almaen, Yr Eidal, Yr Iseldiroedd. |
| Canol a Dwyrain Ewrop | Gwlad Pwyl, Hwngari, Rwsia, Twrci, Y Weriniaeth Tsiec, Yr Wcráin. |
| Asia a'r Môr Tawel | Awstralia, De Corea, Gwlad Thai, India, Indonesia, Japan, Seland Newydd, Singapôr, Taiwan, Tsieina. |
| America Ladin | Ariannin, Brasil, Colombia, Mecsico, Panama, Periw, Tsile |
| Y Dwyrain Canol / Affrica | Botswana, Cenia, De Affrica, Nigeria, Qatar, Sawdi Arabia, Yr Aifft, Yr Emiraethau Arabaidd Unedig |

2.17 Mae map sy'n nodi 50 cenedl y Mynegai fesul rhanbarth i'w weld yn Ffigur 2.

**Ffigur 2: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, map o 50 cenedl y Mynegai a fesurwyd, fesul rhanbarth**



**Dewis yr Ymatebwyr a Phwysoliad**

2.18 Ar sail y paramedrau diweddaraf ar gyfer y boblogaeth ar-lein ym mhob gwlad, cafodd fframwaith y sampl ym mhob gwlad ei bwysoli er mwyn adlewyrchu prif nodweddion demograffig poblogaeth ar-lein y wlad honno yn 2020 – nodweddion megis oed, rhywedd ac addysg. At hynny, yn yr Unol Daleithiau, y Deyrnas Unedig (DU), De Affrica, India a Brasil, cafodd hil a/neu ethnigrwydd eu defnyddio i gydbwyso'r sampl.

2.19 Mae casgliadau Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 yn adlewyrchu safbwyntiau a barn y poblogaethau ar-lein yn y gwledydd a oedd yn cymryd rhan, yn ystod cyfnod y gwaith maes.

2.20 Cafodd y pwysoliad ar gyfer pob gwlad ei gyfrifo gan adran fewnol Ipsos ar gyfer samplu ac ystadegau. Felly, cafodd pob gwlad ei thrin yn gyfartal yn y cyfartaledd byd-eang. Wrth gyfrifo cyfartaledd cyfanredol gwlad, cafodd pwysoliad "un wlad, un bleidlais" ei ddefnyddio oherwydd bod meintiau'r samplau a sicrhawyd yn amrywio ychydig ar draws gwledydd yr arolwg.

*Recriwtio paneli ar-lein ar gyfer yr arolwg*

2.21 Cafodd paneli ar-lein mawr a oedd wedi'u recriwtio ymlaen llaw ac a oedd yn cael eu diweddaru'n rheolaidd eu defnyddio ar gyfer arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020. Cafodd gweithdrefnau rheoli ansawdd, megis camau mynych i wirio hunaniaeth yr ymatebwyr, eu rhoi ar waith (gweler paragraff 2.19).

2.22 Ar sail ystadegau ynghylch y boblogaeth ar-lein ym mhob un o'r gwledydd panel craidd, cafodd fframwaith y sampl ym mhob gwlad ei haenu gan bedair cell sampl: dynion 18-34 oed a 35+ oed a menywod 18-34 oed a 35+ oed. Ar gyfer pob cell, cafodd hapsamplau atblygedig eu llunio mewn modd cymesur a chafodd gwahoddiadau eu hanfon drwy ebost i wahodd panelwyr i gymryd rhan yn yr arolwg.

2.23 Ar draws 19 o wledydd panel craidd, cafodd y rhestr o 50 cenedl y Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 eu dyrannu ar hap i'r ymatebwyr, a rhoddodd pob un o'r ymatebwyr sgôr ar gyfer 25 o 50 cenedl y Mynegai. O ganlyniad, cafodd pob un o genhedloedd y Mynegai tua 500 o sgorau fesul gwlad banel graidd. Yn yr Aifft, lle'r oedd Ipsos o'r farn bod yr ymatebwyr yn llai cyfarwydd ag arolygon ar-lein ac

wedi cael llai o brofiad o ymwneud â nhw, cafodd yr arolwg ei gwtogi. O ganlyniad, cafodd pob un o genhedloedd y Mynegai tua 200 o sgorau gan yr Aifft.

*Gwaith maes yr arolwg a'r ymateb i'r arolwg*

2.24 Ar draws yr 20 o wledydd panel craidd, cafodd arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 ei gwblhau gan gyfanswm o 20,019 o ymatebwyr. Ym mhob un o'r gwledydd panel craidd, cymerodd o leiaf 1,000 o oedolion (18 oed neu hŷn) a oedd yn defnyddio'r rhyngrwyd ran yn yr arolwg.

2.25 Cafodd y gwaith maes ei gyflawni rhwng 7 Gorffennaf a 31 Awst 2020 yn achos pob un o'r gwledydd panel craidd a'r gwledydd panel priodol ychwanegol (ee Cymru).

*Rheoli ansawdd y gwaith maes*

2.26 Caiff yr arolygon ar-lein eu hunanweinyddu, felly mae'r risg y gallai ymatebwyr wneud camgymeriadau neu ffugio gwybodaeth yn uwch yn achos yr arolygon hynny nag yn achos arolygon dros y ffôn neu wyneb yn wyneb a gaiff eu gweinyddu gan gyfwelwyr sydd wedi'u hyfforddi. Er mwyn helpu i leihau'r risg honno, cynhaliodd Ipsos brosesau dilysu a glanhau data yn rhan o'i broses ar gyfer rheoli ansawdd yr arolwg. Yn gyntaf, cafodd "sbidwyr" (ymatebwyr sy'n cwblhau'r arolwg mewn amser afresymol o gyflym) eu tynnu allan o'r sampl; yna, cafodd dadansoddiad ei gynnal er mwyn darganfod ymatebion ac iddynt batrwm, a oedd yn ystyried: Llinellau syth (clicio drwy arolwg gan roi'r un ateb i bob eitem); Eithafiaeth (defnyddio dim ond yr opsiynau sy'n cynrychioli ymateb eithafol); ac Igam-ogamu (symud ar letraws ar draws eitemau ymateb mewn grid). Cafodd yr holiaduron gan ymatebwyr a oedd yn euog o wneud hynny eu tynnu allan o'r ffeil ddata a chafodd panelwyr eraill eu hychwanegu yn eu lle. Cafodd Gatekeeper, sef system ddat-ddyblygu batent, ei ddefnyddio hefyd er mwyn atal ymatebwr rhag cael mynediad i'r arolwg a'i gwblhau fwy nag unwaith.

*Cynnal a chadw'r paneli yn gyffredinol a rheoli ansawdd y paneli*

2.27 Caiff arolwg y Mynegai Brandiau Cenhedloedd ei ddosbarthu drwy ebost. Ar gyfer Mynegai 2020, roedd prosesau dilysu a glanhau llym ar waith er mwyn rheoli ansawdd y paneli ar-lein. Roedd y prosesau hynny'n cynnwys tynnu panelwyr diffygiol a negeseuon ebost oedd wedi bownsio'n ôl allan o'r sampl. At hynny, roedd systemau monitro parhaus y paneli'n tynnu sylw at ymddygiad a allai fod yn

dwyllodrus, ar sail gweithgareddau a phatrymau cwblhau arolwg, a chafodd y panelwyr a oedd yn ymddwyn felly eu tynnu allan o'r sampl.

2.28 Fel rheol, roedd gweithredwyr y paneli'n defnyddio amrywiaeth o gymhellion, yn dibynnu ar y wlad banel. Roedd y cymhellion dan sylw'n cynnwys: rhoddion i elusen ar ran y panelwyr, swîps, pwyntiau, cardiau rhodd, gwobrau, cyfleoedd i lawrlwytho cerddoriaeth a thaliadau ag arian parod.

**Ystyriaethau Data'n Ymwneud â'r Ymchwil**

2.29 Ceir rhai ystyriaethau data sy'n llywio'r modd y mae'r casgliadau wedi'u dadansoddi a'r modd yr adroddwyd yn eu cylch:

- Cafodd Cymru ei chynnwys am y tro cyntaf ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 fel gwlad a oedd yn cymryd rhan ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt Ipsos. Gan gofio hynny, felly, dylai'r ymchwil gael ei hystyried yn ymchwil archwiliol. Mae'n cymryd amser i newid enw drwg, ac yn gyffredinol ni welir fawr ddim newid o'r naill flwyddyn i'r llall.
- Mae'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn darparu darlun sydyn o gyfarwyddineb ymatebwyr â chenedl a'u canfyddiadau ohoni ar sail ystod eang o fesurau (gweler Atodiad A). Mae'r dadansoddiad yn darparu cyfres y gellir ei chyffredinoli o gasgliadau ynghylch lefelau ymwybyddiaeth fyd-eang a safbwyntiau er mwyn rhoi asesiad o enw da brand cenedl. Fodd bynnag, nid yw'r Mynegai yn archwilio pam y mae ymatebwyr yn teimlo felly nac yn archwilio pam y mae newidiadau i enw da yn digwydd dros sawl blwyddyn.
- Cafodd ymatebwyr o Gymru eu cynnwys mewn dau o'r paneli yn 2020 a oedd yn asesu enw da gwledydd: 500 o ymatebwyr yn yr elfen o'r ymchwil a oedd yn ymwneud â 'chanfyddiadau Cymru o Gymru' (hy Cymru fel gwlad banel briodol ychwanegol); a 30 o ymatebwyr o Gymru ymhlith y 1000 (3%) a oedd yn rhan o sampl gwlad banel graidd y DU.
- Dim ond yn yr adran gasgliadau sy'n dwyn y teitl 'Canfyddiadau Cymru o Gymru' yr adroddir ynghylch y casgliadau am ganfyddiadau o Gymru ymhlith pobl sy'n byw yng Nghymru. Nid yw'r casgliadau o Gymru fel 21$^{ain}$ gwlad banel briodol ychwanegol wedi'u cynnwys yng nghasgliadau cyffredinol y Mynegai Brandiau Cenhedloedd. Caiff y gwledydd panel craidd eu rhestru yn Nhabl 2.

- Mae’r data yn dangos bod yr ymatebwyr a nododd eu bod wedi cael mwy o gysylltiad â Chymru yn tueddu i fod â delwedd fwy cadarnhaol o’r genedl; ond nid yw’r Mynegai yn ei gwneud yn bosibl darganfod pryd y digwyddodd y cysylltiad hwnnw.
- Oherwydd cwmpas y Mynegai a’r hyn y mae’n ymdrin ag ef, mae’r prif nodweddion demograffig yn gyfyngedig. Yr unig beth y mae’r data ynghylch galwedigaeth yn ei wneud yw gwahaniaethu rhwng pobl fusnes/swyddogion gweithredol a galwedigaethau eraill; ac mae’r data ynghylch oed wedi’i gyfyngu i dri chategori (gweler Atodiad A). Mae tablau sy’n amlinellu casgliadau Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 ynghylch y dimensiynau a’r priodoleddau ar gyfer Cymru fesul grŵp demograffig i’w gweld yn Atodiad B.
- Nid yw sgôr uchel gan wlad banel graidd o reidrwydd yn gyfystyr â safle uchel gan y wlad honno, ac i’r gwrthwyneb.[4] Mae’r safle yn rhoi gwybodaeth am enw da gwlad o’i chymharu â gwledydd eraill. Dylai’r sgorau a’r safleoedd gael eu hystyried gyda’i gilydd, oherwydd yn unigol mae’n bosibl y byddant yn cyfleu negeseuon gwahanol am ganfyddiadau o Gymru.
- Mae’r safle yn ymateb i newidiadau yn y sampl o wledydd a werthusir, ond nid yw’r sgôr absoliwt yn gwneud hynny. Gellir barnu bod y sgôr yn ddangosydd o enw da gwlad dros gyfnod. Caiff gwybodaeth am y sgôr ei darparu er mwyn meincnodi blwyddyn gyntaf Cymru o gymryd rhan yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd, a gellid ei defnyddio fel dull posibl o asesu a chymharu perfformiad dros gyfnod, pe bai Cymru yn cael ei chynnwys mewn rowndiau yn y dyfodol.
- Mae’r dadansoddiad wedi’i seilio ar ddata cryno cyfanredol sy’n deillio o’r ymatebion ac mae’n bosibl y bydd yna anghysondebau â’r data crai oherwydd, er enghraifft, yr angen i dalgrynnu neu gyfansymio. Mae’r sgorau wedi’u talgrynnu i un lle degol.
- Mae’r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn asesu enw da gwlad ar draws chwe dimensiwn, sef ‘Allforion’, ‘Llywodraethu’, ‘Diwylliant’, ‘Pobl’, ‘Twristiaeth’ a

[4] Er enghraifft, ar gyfer enw da cyffredinol Cymru, rhoddodd India ei sgôr gyffredinol uchaf i Gymru, ond y safle a ddyfarnodd i Gymru oedd ei safle isaf ond dau.

‘Mewnfudo a Buddsoddi’. Fodd bynnag, mae’r dimensiynau a fesurir yn gysyniadau cymhleth ac, mewn rhai achosion, mae’n bosibl y bydd eu terfynau’n gorgyffwrdd a/neu y byddant yn golygu rhywbeth gwahanol i’r ymatebwyr.

- Caiff y casgliadau ynghylch dimensiynau eu cyflwyno fel sgôr o 1 i 100, a gyfrifir fel cyfartaledd y sgorau a roddwyd ar gyfer y cwestiynau sylfaenol.[5]

[5] Er enghraifft, caiff y dimensiwn *Allforion* ei gyfrifo ar sail cyfartaledd sgôr ei briodoleddau cyfansoddol neu sylfaenol, ac yn benodol yr ymatebon i dri chwestiwn: 1) safbwyntiau ar gyfraniad gwlad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg; 2) a yw gwybod ble y caiff cynnyrch ei wneud yn cynyddu neu’n lleihau’r tebygolrwydd y bydd yn cael ei brynu (caiff hynny ei alw hefyd yn ‘effaith gwlad tarddiad’); a 3) y graddau y caiff gwlad ei chydnabod yn lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl.

## 3. Casgliadau

**Safle cyffredinol Cymru ym Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020SM**

3.1 Cafodd Cymru ei gosod yn hanner uchaf y Mynegai Brandiau Cenhedloedd, ac roedd yn yr 21ain safle yn gyffredinol allan o 50 o wledydd.[6]

3.2 Caiff y safle a'r sgôr gyffredinol eu pennu gan y sgorau a gafwyd ar gyfer chwe dimensiwn y Mynegai. Gan gymryd cyfartaledd y sgorau o bob un o chwe dimensiwn y Mynegai, sgôr gyffredinol Cymru yn y Mynegai oedd 59.8 allan o 100.[7] Roedd hynny'n golygu bod Cymru yn yr dengradd isod i'r wlad oedd â'r sgôr uchaf ac yn y dengradd uwchben y wlad oedd â'r sgôr isaf, uwch na chanolbwynt y sgorau uchaf ac isaf (58.3).[8]

3.3 Er mwyn helpu i roi'r casgliadau ar gyfer Cymru yn eu cyd-destun, mae trafodaeth fanylach ynghylch y casgliadau byd-eang ar gael yn Natganiad i'r Wasg Ipsos.


[6] Dyma'r gwledydd a oedd yn yr 10 uchaf, o'r brig i lawr: Yr Almaen (1), Y DU (2), Canada (3), Japan (4), Ffrainc (5), Yr Eidal (6), Y Swistir (7), Awstralia (8), Sweden (9), Yr Unol Daleithiau (10). Ni ellir cyhoeddi gwledydd sydd â safleoedd 11 neu is o dan amodau cytundeb tanysgrifio'r NBI.
[7] Mae'r ffigyrau wedi'u talgrynnu i un lle degol.
[8] Mae dengradd yn ddull meintiol o rannu cyfres o ddata ynghylch safleoedd yn 10 is-adran sydd yr un mor fawr â'i gilydd. Mae dengradd yn rhoi'r data mewn trefn o'r isaf i'r uchaf, ar raddfa o un i 10 lle mae pob rhif olynol yn cyfateb i gynnydd o 10 pwynt canrannol.

**Enw da Cymru yn yr 20 o wledydd panel craidd**

3.4 Mae Ffigur 3 yn dangos y safle cyffredinol yn y Mynegai lle cafodd Cymru ei gosod gan bob un o'r 20 o wledydd panel craidd. Gosodwyd Cymru mewn safle cymharol uchel gan ei chymdogion Ewropeaidd a Gogledd America. Roedd enw da Cymru yn 2020 ar ei orau yn y DU, ac yna yn Awstralia a Ffrainc. Cafodd Cymru ei gosod yn y 7fed safle yn gyffredinol gan y DU (65.0), a chafodd ei gosod yn yr 16eg safle gan Ffrainc (62.7) ac yn y 18fed safle (58.6) gan Awstralia. Yn agos wedyn yr oedd De Affrica (64.2), Chanada (60.7) a'r Almaen (58.7), a osododd Cymru yn y 19eg safle, sef safle uchaf ond tri y genedl [Ffigur 3].

3.5 Roedd enw da Cymru ar ei wannaf yn India (38ain safle), yna yn Tsieina (37ain safle) ac yna yn Nhwrci (32ain safle) [Ffigur 3].

**Ffigur 3: Safle Cyffredinol Cymru yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd Fesul Gwlad Banel Graidd (2020)**



3.6 Mae'r casgliadau o India a Tsieina yn helpu i ddangos sut y dylai'r sgorau a'r safleoedd gael eu hystyried gyda'i gilydd er mwyn deall y darlun cyffredinol, oherwydd yn unigol mae'n bosibl y byddant yn cyfleu negeseuon gwahanol am ganfyddiadau o Gymru. Er enghraifft, dyfarnodd India ei safle isaf i Gymru ond rhoddodd ei sgôr uchaf i'r genedl (sef 68.7), gyda Tsieina yn dilyn wedyn (67.1). Cafodd Cymru ei sgôr uchaf ond dwy gan y wlad a ddyfarnodd ei safle uchaf iddi, sef y DU (65.0).

3.7 Cafodd Cymru ei sgorau cyffredinol isaf gan Japan (51.6), De Corea (52.0) a Thwrci (53.2).

*Amrywiadau ar draws grwpiau demograffig – safle a sgôr gyffredinol Cymru*

3.8 Roedd yr ymatebwyr a oedd wedi cael rhywfaint o gysylltiad â Chymru, boed oherwydd eu bod wedi ymweld â'r wlad at ddibenion busnes a/neu ar wyliau (60.5) neu oherwydd eu bod wedi mynd i wefan Gymreig (60.5), yn tueddu i roi sgôr uwch i enw da Cymru na'r ymatebwyr a oedd wedi cael cysylltiad cyfyngedig â'r wlad neu heb gael unrhyw gysylltiad o gwbl â hi [Tabl 5].

3.9 Roedd ymatebwyr 45 oed neu hŷn (60.6) yn tueddu i roi sgôr uwch i enw da Cymru nag ymatebwyr 18 i 29 oed (57.8). Roedd hynny'n golygu bod Cymru yn y 20$^{ain}$ safle ymhlith ymatebwyr 45 oed neu hŷn, o gymharu â'r 28$^{ain}$ safle ymhlith ymatebwyr 18 i 29 oed [Tabl 5].

3.10 Yr unig beth y mae'r data demograffig ynghylch galwedigaeth yn ei wneud yw gwahaniaethu rhwng 'Pobl fusnes/Swyddogion gweithredol' a galwedigaethau 'Eraill'. Roedd 'Pobl fusnes/Swyddogion gweithredol' yn tueddu i weld Cymru mewn goleuni mwy ffafriol o safbwynt sgôr y genedl ar gyfer ffafrioldeb, a rhoesant sgôr o 63.4 i Gymru o gymharu â 58.2 gan 'Eraill' [Tabl 5].

**Tabl 5: Safle a sgôr gyffredinol Cymru yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad â Chymru, a chyfarwyddineb â Chymru (2020)**

| | Safle | Sgôr |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 21 | 59.8 |
| **Oed** | | |
| 18-29 | 28 | 57.8 |
| 30-44 | 21 | 60.6 |
| 45+ | 20 | 60.6 |
| **Galwedigaeth** | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 20 | 63.4 |
| Eraill | 21 | 58.2 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 21 | 60.5 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 21 | 56.7 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 21 | 61.4 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 21 | 56.7 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 21 | 57.3 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 21 | 59.3 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 21 | 61.1 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 21 | 61.7 |

**Cyfarwyddineb â Chymru**

3.11 Ar ddechrau arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio pa mor gyfarwydd yr oeddent â phob gwlad, ar raddfa o 1.0 i 5.0 ar gyfer cyfarwyddineb. Caiff cyfarwyddineb cyffredinol ei gyflwyno fel canran yr ymatebwyr a nododd eu bod "yn gyfarwydd iawn â Chymru", "yn gyfarwydd â Chymru" neu "yn gwybod rhywfaint am Gymru" ar y raddfa ar gyfer cyfarwyddineb.

3.12 Mae Tabl 6 yn dangos bod 53% o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod o leiaf yn gyfarwydd â Chymru i ryw raddau, a arweiniodd at y 45$^{ain}$ safle ar gyfer cyfarwyddineb allan o 50 o genhedloedd y Mynegai Brandiau Cenhedloedd.

**Tabl 6: Cyfarwyddineb cyffredinol â Chymru yn ôl oed a galwedigaeth (%) (2020)**

| Cyfarwyddineb â Chymru | % yn gyfarwydd â Chymru | Safle |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 53% | 45 |
| **Oed** | | |
| 18-29 | 48% | 47 |
| 30-44 | 54% | 45 |
| 45+ | 56% | 35 |
| **Galwedigaeth** | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 65% | 44 |
| Eraill | 48% | 45 |

*Amrywiadau ar draws grwpiau demograffig*

3.13 Roedd ymatebwyr 45 oed neu hŷn yn tueddu i fod yn fwy cyfarwydd â Chymru (56%) nag ymatebwyr iau 18-29 oed (48%), a gosododd ymatebwyr 45 oed neu hŷn Gymru yn y 35ain safle yn gyffredinol ar gyfer cyfarwyddineb [Tabl 6].

3.14 Yn gyffredinol, roedd y sawl a oedd yn perthyn i'r grŵp demograffig galwedigaethol 'Pobl fusnes/Swyddogion gweithredol' yn fwy cyfarwydd â Chymru (65%) na'r ymatebwyr a oedd yn perthyn i'r categori 'Eraill' (48%) [Tabl 6].

*Amrywiadau rhwng gwledydd panel a rhanbarthau*

3.15 Caiff lefelau cyfarwyddineb â Chymru ar draws yr 20 o wledydd panel craidd eu dangos yn Ffigur 4. Roedd lefel cyfarwyddineb yr ymatebwyr â Chymru ar ei huchaf yn y DU (93%), ac yna yn yr Eidal (68%), Awstralia (66%), Sweden (64%) a'r Almaen (58%). Ar y llaw arall, ymatebwyr o Japan (22%) a De Corea (25%) oedd leiaf cyfarwydd â Chymru.[9]


3.16 Wrth edrych ar y casgliadau, gwelir mai gwledydd Ewropeaidd oedd yn tueddu i fod fwyaf cyfarwydd â Chymru, ac eithrio Ffrainc. Dim ond 45% o ymatebwyr o Ffrainc a nododd eu bod yn gwybod rhywfaint am Gymru neu'u bod yn gyfarwydd neu'n gyfarwydd iawn â Chymru. Fodd bynnag, nododd Ffrainc lefelau isel o

[9] Ni chafodd y cwestiwn hwn ei ofyn i ymatebwyr panel craidd o'r Aifft.

gyfarwyddineb yn gyffredinol, a 47% oedd cyfartaledd ei chyfarwyddineb ar draws pob un o 50 cenedl y Mynegai Brandiau Cenhedloedd.

3.17 Ar lefel ranbarthol, ymatebwyr o Orllewin Ewrop oedd fwyaf cyfarwydd â Chymru, lle'r oedd cyfartaledd y cyfarwyddineb â Chymru yn 66% yn gyffredinol. Roedd yr ymatebwyr a oedd fwyaf cyfarwydd â Chymru wedyn yn dod o wledydd Canol a Dwyrain Ewrop (53%) a gwledydd Gogledd America (51%). Ymatebwyr o wledydd America Ladin a gwledydd Asia a'r Môr Tawel oedd leiaf cyfarwydd â Chymru; roedd lefel cyfarwyddineb yn y ddau ranbarth hwnnw'n 45% yn gyffredinol.

**Ffigur 4: Cyfarwyddineb â Chymru yn ôl gwlad banel (%) (2020)**



**Ffafrioldeb tuag at Gymru**

3.18 Roedd Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 hefyd yn cynnwys cwestiwn a oedd yn gofyn i'r ymatebwyr sgorio eu ffafrioldeb tuag at Gymru ar raddfa o 1.0 i 7.0 lle 1.0 oedd agwedd eithriadol o anffafriol a 7.0 oedd agwedd eithriadol o ffafriol. Mae'r casgliadau yn darparu data ynghylch lefelau ffafrioldeb tuag at Gymru ymhlith ymatebwyr i'r arolwg. Caiff ffafrioldeb cyffredinol ei gyflwyno fel y sgôr gymedrig ar y raddfa ar gyfer ffafrioldeb.

3.19 Mae'r casgliadau yn dangos bod Cymru yn cael ei gweld mewn goleuni niwtral i gadarnhaol gan ymatebwyr ar draws pob un o'r 20 o wledydd panel craidd. Sgôr gymedrig Cymru ar gyfer ffafrioldeb oedd 4.7, sydd ychydig yn uwch na phwynt canol y raddfa, sef 4.0 (sy'n cynrychioli'r opsiwn niwtral "ddim yn ffafriol nac yn anffafriol"). Ni roddodd unrhyw un o'r 20 o wledydd panel craidd sgôr o 4.0 neu lai i Gymru ar y raddfa ar gyfer ffafrioldeb [Tabl 6].

3.20 Cafodd Cymru sgôr gymharol uchel ar gyfer ffafrioldeb, ac roedd yn yr 21ain safle allan o 50 cenedl y Mynegai Brandiau Cenhedloedd [Tabl 6].[10]

*Amrywiadau rhwng gwledydd panel a rhanbarthau*

3.21 Mae Ffigurau 6 a 7 yn dangos lefelau ffafrioldeb tuag at Gymru ar draws yr 20 o wledydd panel craidd. Cafodd Cymru ei sgôr gymedrig uchaf ar gyfer ffafrioldeb gan y DU (5.4), gydag Awstralia (5.0) a Tsieina (4.9) yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru ei sgôr gymedrig isaf ar gyfer ffafrioldeb gan Dde Corea (4.0), ond roedd y sgôr honno'n dal yn uwch na phwynt canol 'niwtral' y raddfa [Ffigur 5].[11]

3.22 Cafodd Cymru ei safle uchaf ar gyfer ffafrioldeb gan y DU, a osododd Gymru yn y 3ydd safle yn gyffredinol, gydag Awstralia (13eg) yr Almaen a Chanada (17eg) yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru ei gosod yn ei safle isaf ar gyfer ffafrioldeb gan India (44ain safle) [Ffigur 6].

---

[10] Sgôr fynegai wedi'i throsi ar sail ymatebion y gwledydd panel craidd ar y raddfa o 1.0 i 7.0 ar gyfer ffafrioldeb.

[11] Mae sampl y DU yn cynnwys Cymru (gweler Adran 2).

*Amrywiadau ar draws grwpiau demograffig*

3.23 Roedd ymatebwyr 45 oed neu hŷn yn tueddu i roi sgôr fwy ffafriol i Gymru (4.8) nag ymatebwyr iau 18-29 oed (4.4), a gosododd ymatebwyr 45 oed neu hŷn Gymru yn yr 20 uchaf (19eg safle) ar gyfer ffafrioldeb [Tabl 7].

3.24 Gosododd y grwpiau demograffig galwedigaethol 'Pobl fusnes/Swyddogion gweithredol' ac 'Eraill' Gymru yn yr 21ain safle ar gyfer ffafrioldeb; ond rhoddodd y grŵp 'Pobl fusnes/Swyddogion gweithredol' sgôr uwch i Gymru (4.9) na'r grŵp 'Eraill' (4.6) [Tabl 7].


**Tabl 7: Ffafrioldeb tuag at Gymru yn ôl Oed, Galwedigaeth, Cysylltiad â Chymru a Chyfarwyddineb â Chymru (2020)**

| **Ffafrioldeb tuag at Gymru** | **Safle** | **Sgôr** |
|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 21 | 4.7 |
| **Oed** | | |
| 18-29 | 29 | 4.4 |
| 30-44 | 22 | 4.7 |
| 45+ | 19 | 4.8 |
| **Galwedigaeth** | | |
| Pobl fusnes/Swyddogion gweithredol | 21 | 4.9 |
| Eraill | 21 | 4.6 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 21 | 4.7 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 24 | 4.3 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 21 | 4.7 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 20 | 4.5 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 21 | 4.5 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 21 | 4.6 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 21 | 4.8 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 21 | 4.8 |


3.25 Po fwyaf cyfarwydd yr oedd ymatebwyr â Chymru, yr uchaf yr oedd eu sgôr ar gyfer ffafrioldeb. Rhoddodd yr ymatebwyr a oedd wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau sgôr uwch i'r genedl (4.7) na'r ymatebwyr nad oeddent wedi gwneud hynny (4.3), a

oedd yn golygu bod Cymru yn yr 21ain safle yn gyffredinol, o gymharu â'r 24ain safle [Tabl 7].

**Ffigur 5: Ffafrioldeb tuag at Gymru, sgôr y gwledydd panel (2020)**



**Ffigur 6: Ffafrioldeb tuag at Gymru, safle’r gwledydd panel (2020)**




*Chwe dimensiwn enw da Cymru*


3.26 Mae’r Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn archwilio enw da cenedl drwy fesur ei delwedd a’i henw da ar draws chwe dimensiwn y mae pwysoliad pob un ohonynt yn gyfartal ac y mae pob un ohonynt yn cael eu defnyddio i gyfrifo’r safle a’r sgôr gyffredinol yn y Mynegai. Dyma’r chwe dimensiwn: Allforion; Llywodraethu; Diwylliant; Pobl; Twristiaeth; a Mewnfudo a Buddsoddi.

3.27 Mae perfformiad Cymru ar draws pob un o’r chwe dimensiwn i’w weld yn Ffigurau 7, 8 a 9. Mae ffeithlun, sy’n rhoi trosolwg o’r canfyddiadau, yn Ffigur 10. O ddarllen ar draws y dimensiynau, gwelir bod Cymru wedi cael sgôr gyson a bod ei safle o amgylch canol y Mynegai ac yn amrywio rhwng y 19eg safle a’r 29ain safle. Roedd

Cymru ymhlith y 30 uchaf yng nghyswllt pob un o'r chwe dimensiwn, ac roedd ymhlith y 25 uchaf yng nghyswllt pedwar ohonynt.


3.28 Roedd safle uchaf Cymru yn ymwneud â 'Llywodraethu' lle cyrhaeddodd y 19$^{eg}$ safle allan o 50 o wledydd. Roedd ei safle uchaf ond un yn ymwneud â 'Mewnfudo' a 'Buddsoddi' (20$^{fed}$ safle), a'r dimensiwn *Pobl* oedd wedyn (21$^{ain}$ safle). Roedd safle isaf Cymru yn ymwneud â'r dimensiwn 'Diwylliant' lle cyrhaeddodd y 29$^{ain}$ safle [Ffigur 7].

**Ffigur 7: Safleoedd Cyffredinol Cymru yng Nghyswllt y Mynegai a'r Dimensiynau (2020)**




3.29 Ar draws y chwe dimensiwn, roedd sgorau uchaf Cymru yn ymwneud â'r dimensiwn *Pobl* (64.0) ac yna *Twristiaeth* (64.4) ac roedd ei sgôr isaf yn ymwneud ag *Allforion* (54.4) (Ffigur 8).


**Ffigur 8: Sgorau Cyffredinol Cymru yng Nghyswllt y Mynegai a'r Dimensiynau (2020)**





3.30 Mae sgorau Cymru ar draws y chwe dimensiwn fesul rhanbarth yn y byd i'w gweld yn Ffigur 9. Yn gyffredinol cafodd Cymru ei sgôr uchaf, ar draws y dimensiynau a fesurwyd, gan y Dwyrain Canol ac Affrica (63.1), gydag Asia a'r Môr Tawel (60.4), America Ladin (60.1), Gorllewin Ewrop (60.0) a Gogledd America (60.0) yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru ei sgôr isaf gan Ganol a Dwyrain Ewrop (56.4).

3.31 Caiff pob un o'r chwe dimensiwn eu harchwilio'n fanylach yn y paragraffau sy'n dilyn.

**Ffigur 9: Safleoedd Cyffredinol Cymru yng Nghyswllt y Mynegai a'r Dimensiynau yn ôl Gwlad Banel a Rhanbarth (2020)**



**Ffigur 10: Mesur Enw Da Byd-eang Cymru, 2020**



**Allforion**

3.32 Roedd y dimensiwn 'Allforion' yn archwilio canfyddiadau ymatebwyr o gynnyrch a gwasanaethau pob un o genhedloedd y Mynegai Brandiau Cenhedloedd a gafodd eu mesur. Mae'r sgôr ar gyfer y dimensiwn 'Allforion' allan o 100, a chaiff ei chyfrifo gan ddefnyddio'r sgorau o dri chwestiwn a oedd yn ymdrin â'r priodoleddau canlynol:[12]

1. a yw'r ymatebwyr yn teimlo'n well/yn waeth ynglŷn â "phrynu cynnyrch/gwasanaethau", o wybod eu bod yn dod o genedl sy'n cael ei mesur (caiff hynny ei alw hefyd yn 'effaith gwlad tarddiad');
2. safbwyntiau ar "gyfraniad cenedl at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg"; a
3. y graddau y caiff cenedl ei chydnabod yn "lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl".

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr ddewis pa gynnyrch neu wasanaethau o restr a luniwyd ymlaen llaw, os oedd unrhyw rai o gwbl, yr oeddent yn eu cysylltu â phob un o genhedloedd y Mynegai.

3.33 Yng nghyswllt 'Allforion' y cafodd Cymru ei sgôr isaf a'i safle isaf ond un ar gyfer dimensiwn; roedd ei sgôr o 54.4, o'i throsi, yn gyfystyr â'r 26ain safle allan o 50 o wledydd [Tabl 8].

**Tabl 8: Safle a Sgôr Cymru ar gyfer Allforion (2020)**

| **Allforion** | **Safle** | **Sgôr** |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 26 | 54.4 |
| **Priodoleddau** | | |
| Cyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg | 27 | 51.8 |
| Prynu cynnyrch/gwasanaethau | 22 | 56.0 |
| Lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl | 26 | 55.1 |

[12] Ar gyfer pob priodoledd, cafodd y sawl a oedd yn cymryd rhan yn yr arolwg ddatganiad, a gofynnwyd iddynt i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad, ar sail graddfa Likert 7 pwynt lle 1.0 oedd yr isaf a'r gwaethaf a 7.0 oedd yr uchaf a'r gorau (a lle 4.0 oedd y safle niwtral yn y canol).

3.34 Cafodd Cymru ei safleoedd uchaf ar gyfer ‘Allforion’ gan y DU ($14^{eg}$), Ffrainc ($20^{ain}$), Canada ($21^{ain}$) ac Awstralia ($22^{ain}$). Cafodd Cymru ei safleoedd isaf gan Tsieina ($38^{ain}$), Mecsico ($38^{ain}$) ac India ($45^{ain}$).

3.35 Caiff gwybodaeth am sgorau rhanbarthol ei darparu ar gyfer pob un o’r chwe dimensiwn at ddibenion meincnodi. Mae Ffigur 9 yn dangos y gwahaniaeth rhwng y sgorau cyfartalog ar sail y chwe dimensiwn a roddwyd i Gymru gan wahanol ranbarthau daearyddol y byd. Ar gyfer ‘Allforion’, cafodd Cymru ei sgôr uchaf gan y Dwyrain Canol ac Affrica (57.3) gydag Asia a’r Môr Tawel yn dilyn wedyn (55.9). Cafodd Cymru ei sgôr ranbarthol isaf ar gyfer ‘Allforion’ gan Ganol a Dwyrain Ewrop (51.1).

*Safle a sgôr Cymru ar gyfer Allforion yn ôl nodweddion demograffig*

3.36 Po fwyaf cyfarwydd yr oedd ymatebwyr â Chymru, yr uchaf yr oedd eu sgôr i’r genedl yn tueddu i fod ar gyfer ‘Allforion’ [Tabl 8].

3.37 O’u cymharu â’r grŵp demograffig galwedigaethol “Eraill” (sgôr 52.9; safle $26^{ain}$), roedd “Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol” yn rhoi sgôr uwch (57.4) a safle uwch ($25^{ain}$) i Gymru ar gyfer ‘Allforion’ – pedwar pwynt yn uwch (4.5) ac un safle’n uwch [Tabl 9].

**Tabl 9: Sgôr a safle Cymru ar gyfer *Allforion* yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad â Chymru a chyfarwyddineb â Chymru (2020)**

| Allforion | Safle | Sgôr |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 26 | 54.4 |
| **Oed** | | |
| 18-29 | 31 | 53.0 |
| 30-44 | 27 | 55.4 |
| 45+ | 24 | 54.2 |
| **Galwedigaeth** | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 25 | 57.4 |
| Eraill | 26 | 52.9 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 26 | 54.9 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 29 | 51.6 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 26 | 55.7 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 25 | 51.7 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 26 | 51.7 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 25 | 53.4 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 26 | 55.2 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 25 | 56.0 |

3.38 Roedd pobl hŷn yn tueddu i roi sgôr a safle uwch i Gymru ar gyfer ‘Allforion’. Ar gyfartaledd, gosododd ymatebwyr 45+ oed Gymru yn y 25 uchaf, yn y 24$^{ain}$ safle, tra gosododd ymatebwyr yn y categori 18-29 oed Gymru ychydig y tu allan i’r 30 uchaf, yn yr 31$^{ain}$ safle [Tabl 8].

*Priodoleddau Allforion*

3.39 Roedd sgorau Cymru ar gyfer y priodoleddau yn niwtral i gadarnhaol (hy roeddent yn uwch na’r gwerth niwtral canol, sef 50.5). Y priodoleddau lle cafodd Cymru ei sgorau uchaf yng nghyswllt ‘Allforion’ oedd “prynu cynnyrch o’r wlad” (56.0) a’r graddau yr oedd y genedl yn cael ei chydnabod yn “lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl” (55.1). Cafodd Cymru ei sgôr isaf am ei “chyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg” (51.8).

3.40 O’i chymharu â’r cenhedloedd eraill a oedd yn cymryd rhan, roedd sgorau Cymru ar gyfer priodoleddau ‘Allforion’, o’u trosi, yn gyfystyr â safleoedd a oedd o amgylch y canol. Gosododd yr ymatebwyr Gymru yn y 25 uchaf (yr 22$^{ain}$ safle) ar gyfer teimlo’n


dda ynglŷn â “phrynu ei chynnyrch/gwasanaethau”, a oedd yn uwch na’i safle ar gyfer “cyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg” (27ain) ac ar gyfer bod yn “lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl” (26ain) [Tabl 7].

*Y geiriau a gysylltir â Chymru – Allforion*

3.41 O restr a luniwyd ymlaen llaw, gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis y cynnyrch neu’r gwasanaethau allforio yr oeddent yn eu cysylltu fwyaf â Chymru. Gallai’r ymatebwyr ddewis cynifer o ymatebion ag yr oeddent yn dymuno.

3.42 Mae cwmwl geiriau sy’n dangos pa mor aml y cafodd cynnyrch neu wasanaethau penodol eu cysylltu â Chymru i’w weld yn Ffigur 11. Mae maint pob gair yn helpu i ddangos pa mor aml y cafodd yr ymateb ei ddewis. Po fwyaf yw maint gair, yr amlaf y cafodd ei ddewis gan yr ymatebwyr.[13] Y tri gair a gafodd eu cysylltu fwyaf ag allforion Cymru o ran cynnyrch neu wasanaethau oedd “amaethyddiaeth” (21%), “bwyd” (14%) a “crefftau” (13%).[14]

**Ffigur 11: Y geiriau a gysylltir â Chymru – Allforion, Cynnyrch neu wasanaethau a gaiff eu cysylltu â Chymru (2020)**




[13] Yr opsiynau ar gyfer ymateb oedd: hysbysebu, amaethyddiaeth, moduro, bancio, crefftau, ffasiwn, ffilm a theledu, bwyd, uwch-dechnoleg, olew, dim un o’r rhain

[14] Y geiriau oedd yn cael eu cysylltu leiaf aml â Chymru oedd “hysbysebu” (7%), “moduro” (6%) ac “olew” (3%).

**Llywodraethu**

3.43 Nod y dimensiwn 'Llywodraethu' oedd archwilio canfyddiadau o lywodraeth cenedl. Cafodd ei asesu ar sail sgorau a oedd yn deillio o bum datganiad ynghylch priodoleddau a oedd yn archwilio safbwyntiau'r ymatebwyr ynghylch a yw cenedl:

1. "yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest";
2. "yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg";
3. "yn ymddwyn yn gyfrifol o safbwynt heddwch a diogelwch rhyngwladol";
4. "yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn gwarchod yr amgylchedd";
5. "yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn helpu i leihau tlodi yn y byd".

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr ddewis ansoddeiriau, o restr a ddarparwyd, yr oeddent yn teimlo ei fod yn disgrifio orau eu barn am lywodraeth y cenhedloedd a oedd yn cael eu hasesu ar gyfer y Mynegai Brandiau Cenhedloedd.

3.44 'Llywodraethu' oedd y dimensiwn lle cafodd Cymru ei safle uchaf yn 2020; cafodd ei gosod yn y 19eg safle allan o 50 cenedl y Mynegai gyda sgôr o 60.6 (Tabl 10).

**Tabl 10: Safle a Sgôr Cymru ar gyfer Llywodraethu (2020)**

| **Llywodraethu** | **Safle** | **Sgôr** |
|---|---|---|
| Llywodraethu | 19 | 60.6 |
| **Priodoleddau** | | |
| Yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest | 17 | 60.7 |
| Yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg | 19 | 63.9 |
| Heddwch a diogelwch rhyngwladol | 19 | 62.4 |
| Yn gwarchod yr amgylchedd | 18 | 59.9 |
| Yn helpu i leihau tlodi yn y byd | 18 | 56.1 |

3.45 Cafodd Cymru ei safle uchaf gan wlad banel graidd ar gyfer 'Llywodraethu' gan y DU (7fed safle), gydag Awstralia a De Affrica yn dilyn wedyn ar ôl iddynt osod Cymru yn y 12fed safle. Cafodd Cymru ei safleoedd isaf ar gyfer 'Llywodraethu' gan y canlynol, mewn trefn ddisgynnol: Twrci (26ain safle), Tsieina (34ain safle) ac India (37ain safle).

3.46 Ar gyfer 'Llywodraethu', cafodd Cymru ei sgorau uchaf gan ranbarth y Dwyrain Canol ac Affrica (63.7), gydag Asia a'r Môr Tawel (61.9) a Gorllewin Ewrop (61.5)

yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru ei sgôr ranbarthol isaf ar gyfer ‘Llywodraethu’ gan Ganol a Dwyrain Ewrop (56.6) [Ffigur 9].

*Safle a sgôr Cymru ar gyfer Llywodraethu yn ôl nodweddion demograffig*

3.47 Po fwyaf cyfarwydd yr oedd ymatebwyr â Chymru, yr uchaf yr oedd eu sgôr i’r genedl yn tueddu i fod ar gyfer ‘Llywodraethu’ [Tabl 11].

3.48 Ar gyfartaledd, roedd “Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol” yn rhoi sgôr uwch (64.5) a safle uwch (17eg safle) i Gymru na’r sawl a oedd yn perthyn i’r categori demograffig galwedigaethol “Eraill” (sgôr 58.9; safle 19eg).

3.49 Gosododd pob un o’r grwpiau oedran Gymru yn yr 20 uchaf ar gyfer ‘Llywodraethu’, ond unwaith eto roedd pobl hŷn yn tueddu i roi sgôr a safle uwch i Gymru. Gosododd ymatebwyr 45+ oed y genedl yn yr 16eg safle, tra gosododd ymatebwyr yn y categori 18-29 oed Gymru yn yr 20fed safle [Tabl 11].

**Tabl 11: Safle a sgôr Cymru ar gyfer Llywodraethu yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad â Chymru a chyfarwyddineb â Chymru (2020)**

| **Llywodraethu** | **Safle** | **Sgôr** |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 19 | 60.6 |
| **Oed** | **Safle** | **Sgôr** |
| 18-29 | 20 | 57.4 |
| 30-44 | 19 | 60.6 |
| 45+ | 16 | 63.0 |
| **Galwedigaeth** | **Safle** | **Sgôr** |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 17 | 64.5 |
| Eraill | 19 | 58.9 |
| **Cysylltiad â Chymru** | **Safle** | **Sgôr** |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 18 | 61.4 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 19 | 57.3 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 19 | 62.0 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 17 | 58.0 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | **Safle** | **Sgôr** |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 19 | 58.4 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 18 | 60.4 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 19 | 62.1 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 18 | 62.5 |

*Priodoleddau Llywodraethu*

3.50 Y priodoledd lle cafodd Cymru ei sgôr uchaf yng nghyswllt y dimensiwn 'Llywodraethu' oedd "yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg" (63.9), gydag "yn ymddwyn yn gyfrifol o safbwynt heddwch a diogelwch rhyngwladol" (62.4) yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru ei sgôr isaf yng nghyswllt "yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn helpu i leihau tlodi yn y byd" (56.1).

3.51 Roedd sgorau Cymru ar gyfer priodoleddau 'Llywodraethu', o'u trosi, yn gyfystyr â safleoedd yn yr 20 uchaf; cafodd ei gosod yn ei safle uchaf (17eg safle) yng nghyswllt "cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest", yna yng nghyswllt "yn gwarchod yr amgylchedd" ac "yn helpu i leihau tlodi yn y byd" (y ddau yn y 18fed safle), gydag "yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg" ac "yn ymddwyn yn gyfrifol o safbwynt heddwch a diogelwch rhyngwladol" yn dilyn wedyn (y ddau yn y 19eg safle) [Tabl 10].

*Y geiriau a gysylltir â Chymru – Llywodraethu*

3.52 O restr a luniwyd ymlaen llaw, gofynnwyd i'r ymatebwyr ddewis yr ansoddeiriau yr oeddent yn teimlo ei fod yn disgrifio llywodraeth yng Nghymru orau.[15] Mae'r cwmwl geiriau yn Ffigur 12 yn helpu i ddangos yr ansoddeiriau a ddewiswyd amlaf, sef, mewn trefn ddisgynnol, "dibynadwy" (29%), "ymddiriedadwy" (24%) a "cysurlon" (22%).[16]

---

[15] Yr opsiynau ar gyfer ymateb oedd: llygredig, peryglus, cysurlon, dibynadwy, tryloyw, ymddiriedadwy, anrhagweladwy, ansefydlog

[16] Mewn trefn ddisgynnol, y tri ansoddair a gâi eu cysylltu leiaf aml â llywodraeth yng Nghymru oedd "ansefydlog" (4%), "llygredig" (3%) a "peryglus" (3%).

**Ffigur 12: Y geiriau a gysylltir â Chymru – Llywodraethu, Ansoddeiriau a gaiff eu cysylltu â llywodraeth yng Nghymru (2020)**




**Diwylliant**

3.53 Roedd y dimensiwn ‘Diwylliant’ yn archwilio canfyddiadau’r ymatebwyr o enw da diwylliannol cenedl, drwy ofyn tri chwestiwn a oedd yn archwilio safbwyntiau ynghylch:

1. a yw cenedl “yn rhagori ym maes chwaraeon”;
2. a oes gan genedl “dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog”; a
3. a yw cenedl “yn lle cyffrous ar gyfer diwylliant cyfoes megis cerddoriaeth, ffilmiau, celf a llenyddiaeth”.

Gofynnwyd hefyd i’r ymatebwyr ddewis pa weithgareddau neu gynnyrch diwylliannol, os oedd unrhyw rai o gwbl, yr oeddent yn disgwyl fwyaf eu gweld yn cael eu cynhyrchu yn y cenhedloedd a oedd yn cael eu hasesu ar gyfer y Mynegai Brandiau Cenhedloedd.

3.54 Yng nghyswllt y dimensiwn ‘Diwylliant’ y cafodd Cymru ei safle isaf; roedd yn y 29ain safle ymhlith pob un o 50 cenedl y Mynegai, gyda sgôr gyffredinol o 57.9.

3.55 Cafodd Cymru ei safle uchaf gan wlad banel graidd ar gyfer ‘Diwylliant’ gan y DU (10$^{fed}$ safle), gydag Awstralia (17$^{eg}$ safle) a Ffrainc (18$^{fed}$ safle) yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru ei safleoedd isaf ar gyfer ‘Diwylliant’ gan y canlynol, mewn trefn ddisgynnol: Mecsico (37$^{ain}$ safle), India (40$^{fed}$ safle) a Tsieina (42$^{ain}$ safle).

3.56 Ar gyfer y dimensiwn ‘Diwylliant’, cafodd Cymru ei sgôr uchaf gan ranbarth y Dwyrain Canol ac Affrica (61.6), gydag Asia a’r Môr Tawel yn dilyn wedyn (59.9); cafodd Cymru ei sgôr ranbarthol isaf gan Ganol a Dwyrain Ewrop (54.7) [Ffigur 9].

**Tabl 12: Safle a sgôr Cymru ar gyfer Diwylliant (2020)**

| Diwylliant | Safle | Sgôr |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 29 | 57.9 |
| **Priodoleddau** | | |
| Yn rhagori ym maes chwaraeon | 27 | 53.3 |
| Treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog | 24 | 63.4 |
| Diwylliant cyfoes | 26 | 56.8 |

*Safle a sgôr Cymru ar gyfer Diwylliant yn ôl nodweddion demograffig*

3.57 Mae Tabl 13 yn dangos po fwyaf cyfarwydd yr oedd ymatebwyr â Chymru, yr uchaf yr oedd eu sgôr i’r genedl yn tueddu i fod ar gyfer ‘Diwylliant’.

3.58 Roedd “Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol” yn rhoi sgôr uwch (61.0) a safle uwch (28$^{ain}$ safle) i Gymru ar gyfer ‘Diwylliant’ na’r sawl a oedd yn perthyn i’r categori galwedigaethol “Eraill” (sgôr 56.5; safle 29$^{ain}$) [Tabl 13].

3.59 Unwaith eto, roedd pobl hŷn yn tueddu i roi sgôr a safle uwch i Gymru na’r sawl a oedd yn perthyn i’r categori 18-29 oed. Roedd yr amrywio rhwng y safleoedd a ddyfarnwyd gan y gwahanol grwpiau oedran yn fwy amlwg yng nghyswllt ‘Diwylliant’ nag yr oedd yng nghyswllt y dimensiynau eraill; roeddent yn amrywio o’r 22$^{ain}$ safle gan ymatebwyr 45+ oed i’r 34$^{ain}$ safle gan ymatebwyr yn y categori 18-29 oed, sef safle isaf Cymru ar draws pob un o ddimensiynau’r Mynegai Brandiau Cenhedloedd a’u cwestiynau sylfaenol [Tabl 13].

**Tabl 13: Safle a sgôr Cymru ar gyfer Diwylliant yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad â Chymru a chyfarwyddineb â Chymru (2020)**

| **Diwylliant** | **Safle** | **Sgôr** |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 29 | 57.9 |
| **Oed** | | |
| 18-29 | 34 | 55.9 |
| 30-44 | 28 | 58.7 |
| 45+ | 22 | 58.5 |
| **Galwedigaeth** | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 28 | 61.0 |
| Eraill | 29 | 56.5 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 29 | 58.2 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 28 | 56.1 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 29 | 59.2 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 27 | 55.3 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 29 | 55.6 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 29 | 57.1 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 29 | 58.6 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 29 | 59.3 |

*Priodoleddau Diwylliant*

3.60 Y priodoledd lle cafodd Cymru ei sgôr uchaf dan y dimensiwn ‘Diwylliant’ oedd “mae ganddi dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog” (63.4); y priodoledd lle cafodd ei sgôr isaf oedd “mae’n rhagori ym maes chwaraeon” (53.3) [Tabl 12].

3.61 Roedd safle Cymru ar gyfer priodoleddau ‘Diwylliant’, o’u trosi, yn gyfystyr â safleoedd a oedd o amgylch y canol. Roedd Cymru yn y 25 uchaf ar gyfer “mae ganddi dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog” (24$^{ain}$), a oedd yn uwch na’i safle ar gyfer “diwylliant cyfoes” (26$^{ain}$) ac “mae’n rhagori ym maes chwaraeon” (27$^{ain}$) [Tabl 12].

*Y geiriau a gysylltir â Chymru – Diwylliant*

3.62 O restr a luniwyd ymlaen llaw, gofynnwyd i’r ymatebwyr ddewis y gweithgareddau neu’r cynnyrch diwylliannol yr oeddent yn eu cysylltu fwyaf â Chymru. Gallai’r

ymatebwyr ddewis cynifer o ymatebion ag yr oeddent yn dymuno.[17] Y tri phrif weithgaredd neu gynnyrch diwylliannol yr oedd yr ymatebwyr yn eu cysylltu amlaf â Chymru oedd "amgueddfeydd" (24%), "chwaraeon" (19%) a "cerddoriaeth" (17%) [Ffigur 13].[18]

**Ffigur 13: Y geiriau a gysylltir â Chymru – Diwylliant, Gweithgareddau neu gynnyrch a gaiff eu cysylltu â Chymru (2020)**




**Pobl**

3.63 Roedd y dimensiwn 'Pobl' yn archwilio canfyddiadau ymatebwyr o bobl gwlad, drwy ofyn tri chwestiwn a oedd yn ystyried:

1. cyfeillgarwch cenedl, drwy holi a fyddai'r ymatebwyr "yn teimlo y byddai croeso iddynt wrth ymweld â'r wlad";
2. "parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o'r wlad";
3. a fyddai'r ymatebwyr "yn hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos iddynt".

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr ddewis o restr a luniwyd ymlaen llaw yr ansoddeiriau, os oedd unrhyw rai o gwbl, yr oeddent yn teimlo eu bod yn disgrifio

[17] Yr opsiynau ar gyfer ymateb oedd: opera, fideos pop, syrcas, cerflunio, amgueddfeydd, carnifal stryd, ffilmiau, chwaraeon, dylunio modern, cerddoriaeth, dim un o'r rhain.
[18] Mewn trefn ddisgynnol, y gweithgareddau neu'r cynnyrch diwylliannol a gâi eu cysylltu leiaf aml â Chymru oedd "carnifal stryd" (9%), "fideos pop" (8%) a "syrcas" (6%).

orau eu prif argraff o bobl pob un o genhedloedd y Mynegai Brandiau Cenhedloedd. Gallai'r ymatebwyr ddewis cynifer o ymatebion ag yr oeddent yn dymuno.

3.64 'Pobl' oedd y dimensiwn lle cyrhaeddodd Cymru ei safle uchaf ond dau, gyda sgôr o 63.5 ($21^{\text{ain}}$ safle) [Tabl 14].

3.65 Cafodd Cymru ei safle uchaf ar gyfer *Pobl* ($8^{\text{fed}}$ safle) gan ddwy wlad banel graidd, sef Awstralia a'r DU, gyda Chanada ($13^{\text{eg}}$ safle) yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru ei safleoedd isaf gan y canlynol, mewn trefn ddisgynnol: Twrci ($32^{\text{ain}}$ safle), India ($35^{\text{ain}}$ safle) a Tsieina ($38^{\text{ain}}$ safle).

3.66 Ar gyfer y dimensiwn 'Pobl', cafodd Cymru ei sgôr uchaf gan Ogledd America (66.5), gyda'r Dwyrain Canol ac Affrica (64.8) yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru ei sgôr ranbarthol isaf ar gyfer 'Pobl' gan Ganol a Dwyrain Ewrop (59.4) [Ffigur 9].

**Tabl 14: Safle a Sgôr Cymru ar gyfer Pobl (2020)**

| **Pobl** | **Safle** | **Sgôr** |
|---|---|---|
| Pobl | 21 | 63.5 |
| **Priodoleddau** | | |
| Yn teimlo y byddai croeso iddynt wrth ymweld â'r wlad | 21 | 62.6 |
| Yn hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos iddynt | 22 | 62.1 |
| Parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o'r wlad | 20 | 66.2 |

*Safle a sgôr Cymru ar gyfer Pobl yn ôl nodweddion demograffig*

3.67 Fel yn achos y dimensiynau eraill, po fwyaf cyfarwydd yr oedd ymatebwyr â Chymru, yr uchaf yr oedd eu sgôr yn tueddu i fod ar gyfer 'Pobl' [Tabl 15].

3.68 Ar gyfartaledd, unwaith eto, roedd "Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol" yn rhoi sgôr uwch (67.4) a safle uwch i Gymru nag ymatebwyr a oedd yn perthyn i'r categori demograffig galwedigaethol "Eraill" (61.9). Gosododd y ddau grŵp Gymru yn y 25 uchaf ar gyfer 'Pobl'. Gosododd "Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol" Gymru yn yr $21^{\text{ain}}$ safle a gosododd "Eraill" y genedl yn yr $22^{\text{ain}}$ safle [Tabl 15].

3.69 Fel yn achos y dimensiynau eraill, roedd pobl hŷn yn tueddu i roi sgôr a safle uwch i Gymru na'r sawl a oedd yn perthyn i'r categori 18-29 oed. Gosododd ymatebwyr 45+ oed Gymru yn yr $19^{\text{eg}}$ safle tra gosododd ymatebwyr yn y categori 18-29 oed Gymru yn y $29^{\text{ain}}$ safle, sef safle isaf Cymru ar gyfer 'Pobl' ar draws y categorïau demograffig [Tabl 15].

**Tabl 15: Safle a sgôr Cymru ar gyfer *Pobl* yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad â Chymru a chyfarwyddineb â Chymru (2020)**

| **Pobl** | **Safle** | **Sgôr** |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 21 | 63.5 |
| **Oed** | | |
| 18-29 | 29 | 61.3 |
| 30-44 | 22 | 63.9 |
| 45+ | 19 | 65.0 |
| **Galwedigaeth** | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 21 | 67.4 |
| Eraill | 22 | 61.9 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 21 | 64.5 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 22 | 59.7 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 21 | 65.4 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 21 | 60.2 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 21 | 61.3 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 21 | 63.4 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 21 | 65.1 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 21 | 65.8 |

*Cwestiynau Pobl*

3.70 Y cwestiwn lle cafodd Cymru ei sgôr uchaf yng nghyswllt ‘Pobl’ oedd yr un ynghylch “parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o’r wlad” (66.2). Cafodd Cymru ei sgôr isaf yng nghyswllt a fyddai’r ymatebwyr “yn hoffi cael person o’r wlad yn ffrind agos iddynt” (62.1) [Tabl 14].

3.71 Roedd sgorau Cymru ar gyfer priodoleddau ‘Pobl’, o’u trosi, yn gyfystyr â safleoedd yn yr hanner uchaf. Cafodd Cymru ei gosod yn yr 20$^{fed}$ safle yng nghyswllt “parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o’r wlad”; yn yr 21$^{ain}$ safle yng nghyswllt a oedd yr ymatebwyr “yn teimlo y byddai croeso iddynt wrth ymweld â’r wlad”; ac yn yr 22$^{ain}$ safle yng nghyswllt a fyddai’r ymatebwyr “yn hoffi cael person o’r wlad yn ffrind agos iddynt”.

*Y Geiriau a Gysylltir â Chymru – Pobl*

3.72 Y tri ansoddair a ddewiswyd amlaf gan yr ymatebwyr i ddisgrifio pobl yng Nghymru oedd “gweithgar” (24%), “gonest” (22%) a “medrus” (19%) [Ffigur 14].[19] [20]

**Ffigur 14: Y Geiriau a Gysylltir â Chymru – Pobl, Ansoddeiriau a Gaiff eu Cysylltu â Phobl Cymru (2020)**




**Twristiaeth**

3.73 Roedd y dimensiwn ‘Twristiaeth’ yn archwilio canfyddiadau’r ymatebwyr o apêl cenedl o ran twristiaeth, drwy ofyn pedwar cwestiwn a oedd yn ystyried:

1. pa mor debygol y byddai ymatebydd o “ymweld â chenedl pe na bai arian yn broblem”;
2. a yw’r genedl “yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol”;
3. a yw’r genedl “yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion”; a

[19] Yr opsiynau ar gyfer ymateb oedd: gonest, gweithgar, diog, anwybodus, annibynadwy, medrus, hwyliog, goddefgar, cyfoethog, ymosodol, dim un o’r rhain.
[20] Y tri ansoddair a ddewiswyd leiaf aml i ddisgrifio pobl yng Nghymru oedd “diog”, “anwybodus” ac “annibynadwy”. Cafodd pob un o’r rheini sgôr o 3%.

4. a oes gan y genedl “fywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol”.

Gofynnwyd hefyd i’r ymatebwyr ddewis, o restr a luniwyd ymlaen llaw, pa ansoddeiriau, os oedd unrhyw rai o gwbl, yr oeddent yn teimlo eu bod yn disgrifio orau’r profiad o ymweld â chenhedloedd y Mynegai Brandiau Cenhedloedd a oedd yn cael eu hasesu.

3.74 ‘Twristiaeth’ oedd y dimensiwn lle cafodd Cymru ei safle gorau ond tri. Cafodd Cymru ei gosod yn y canol, yn y $25^{ain}$ safle, gyda sgôr o 64.4 [Tabl 16].

**Tabl 16: Safle a Sgôr Cymru ar gyfer Twristiaeth (2020)**

| Twristiaeth | Safle | Sgôr |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 25 | 64.4 |
| **Priodoleddau** | | |
| Yn ymweld pe na bai arian yn broblem | 21 | 65.4 |
| Yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol | 23 | 68.0 |
| Yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion | 23 | 63.5 |
| Bywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol | 31 | 60.7 |

3.75 Cafodd Cymru ei safle uchaf gan wlad banel graidd ar gyfer ‘Twristiaeth’ gan y DU ($11^{eg}$), gydag Awstralia ($17^{eg}$) a Chanada ($19^{eg}$) yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru ei safleoedd isaf ar gyfer ‘Twristiaeth’ gan y canlynol, mewn trefn ddisgynnol: Rwsia, Tsieina, De Corea a Thwrci (gosododd pob un ohonynt Gymru yn y $35^{ain}$ safle) a Mecsico ($36^{ain}$).

3.76 Cafodd Cymru ei sgôr uchaf ar gyfer ‘Twristiaeth’ gan y Dwyran Canol ac Affrica (66.8), gyda Gorllewin Ewrop (64.9) yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru ei sgôr ranbarthol isaf ar gyfer ‘Twristiaeth’ gan Ganol a Dwyrain Ewrop (62.5) [Ffigur 9].

*Safle a sgôr Cymru ar gyfer Twristiaeth yn ôl nodweddion demograffig*

3.77 Po fwyaf cyfarwydd yr oedd ymatebwyr â Chymru, yr uchaf yr oedd eu sgôr ar gyfer ‘Twristiaeth’ yn tueddu i fod [Tabl 17].

3.78 Ar gyfer ‘Twristiaeth’, fel yn achos y dimensiynau eraill, roedd “Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol” yn tueddu i roi sgôr uwch (68.3) a safle uwch ($23^{ain}$) i Gymru nag ymatebwyr a oedd yn perthyn i’r categori demograffig galwedigaethol “Eraill” (sgôr 62.8; safle $26^{ain}$) [Tabl 17].

3.79 Unwaith eto, roedd pobl hŷn yn tueddu i roi sgôr a safle uwch i Gymru na'r sawl a oedd yn perthyn i'r categori 18-29 oed. Ar gyfer 'Twristiaeth', cafodd Cymru ei gosod yn y 19eg safle gan ymatebwyr 45+ oed, ac yn yr 32ain safle gan ymatebwyr 18-29 oed, sef y safle isaf ar draws y categorïau demograffig [Tabl 17].

**Tabl 17: Safle a sgôr Cymru ar gyfer Twristiaeth yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad â Chymru a chyfarwyddineb â Chymru (2020)**

| Twristiaeth | Safle | Sgôr |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 25 | 64.4 |
| **Oed** | | |
| 18-29 | 32 | 62.1 |
| 30-44 | 27 | 65.4 |
| 45+ | 19 | 65.5 |
| **Galwedigaeth** | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 23 | 68.3 |
| Eraill | 26 | 62.8 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 24 | 65.4 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 26 | 60.7 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 27 | 66.0 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 21 | 61.6 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 25 | 61.9 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 24 | 64.2 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 26 | 65.9 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 26 | 66.4 |

*Priodoleddau Twristiaeth*

3.80 Y priodoledd lle cafodd Cymru ei sgôr uchaf o ran y dimensiwn 'Twristiaeth' oedd yng nghyswllt "harddwch naturiol" (68.0), gyda pharodrwydd ymatebwyr i "ymweld pe na bai arian yn broblem" (65.4) yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru ei sgôr isaf yng nghyswllt ei "bywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol" (60.7) [Tabl 16].


3.81 Roedd sgorau Cymru ar gyfer priodoleddau 'Twristiaeth', o'u trosi, yn gyfystyr â safleoedd yn yr 25 uchaf ar gyfer tri o'r pedwar priodoledd a fesurwyd; sef "ymweld pe na bai arian yn broblem" (21ain); "yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol" (23ain); ac "adeiladau hanesyddol" (23ain). Cafodd Cymru ei gosod yn ei safle isaf

yng nghyswllt ei “bywyd dinesig bywiog” (31ain), sef safle isaf Cymru hefyd ar draws y cwestiynau ar gyfer pob un o’r chwe dimensiwn a fesurwyd [Tabl 16].

*Y geiriau a gysylltir â Chymru – Twristiaeth*

3.82 Y tri ansoddair a ddewiswyd amlaf gan yr ymatebwyr i ddisgrifio’r profiad o ymweld â Chymru oedd “cyfareddol” (23%), “hamddenol” (23%) ac “addysgiadol” (21%) (Ffigur 15).[21] [22]

**Ffigur 15: Y geiriau a gysylltir â Chymru – Twristiaeth, Ansoddeiriau a ddewiswyd i ddisgrifio ymweld â Chymru (2020)**




**Mewnfudo a Buddsoddi**

3.83 Roedd y dimensiwn ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ yn archwilio canfyddiadau o genedl o safbwynt ffyniant economaidd a chyfle cyfartal ac a yw’r genedl yn fan lle mae ansawdd bywyd yn uchel, drwy ofyn pum cwestiwn a oedd yn ystyried:

1. “parodrwydd yr ymatebwyr i fyw a gweithio mewn gwlad am gyfnod hir”;

[21] Yr opsiynau ar gyfer ymateb oedd: rhamantus, digalon, cyffrous, diflas, cyfareddol, peryglus, addysgiadol, trafferthus, ysbrydol, hamddenol, dim un o’r rhain

[22] Y tri gair a gâi eu cysylltu leiaf aml â Chymru oedd “trafferthus”, “digalon” a “peryglus”. Cafodd pob un o’r rheini sgôr o 3%.

2. a yw'r ymatebwyr yn ystyried bod pob cenedl yn “fan lle mae ansawdd bywyd yn uchel”;
3. a yw'r ymatebwyr yn ystyried bod pob cenedl yn “lle da i astudio ar gyfer cymwysterau addysgol”;
4. a yw'r ymatebwyr yn ystyried bod gan bob cenedl “fusnesau yr hoffent fuddsoddi ynddynt”;
5. a yw'r ymatebwyr yn ystyried bod pob cenedl “yn poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas”.

Gofynnwyd hefyd i'r ymatebwyr ddewis, o restr a luniwyd ymlaen llaw, yr ansoddair yr oeddent yn teimlo ei fod yn disgrifio orau yr amodau economaidd a'r amodau busnes presennol yng Nghymru.

3.84 ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ oedd y dimensiwn lle cafodd Cymru ei gosod yn ei safle uchaf ond un yn 2020. Roedd yn yr 20fed safle yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd, gyda sgôr o 57.9 [Tabl 18].

3.85 Cafodd Cymru ei safle uchaf gan wlad banel graidd ar gyfer ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ gan y DU (7fed safle), gydag Awstralia (14eg safle) a De Affrica (16eg safle) yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru eu safleoedd isaf gan y canlynol, mewn trefn ddisgynnol: Twrci (28ain safle), India (30ain safle) a Tsieina (32ain safle).

3.86 Cafodd Cymru ei sgôr uchaf ar gyfer ‘Mewnfudo a Buddsoddi’ gan ranbarth y Dwyrain Canol ac Affrica (64.3), gydag America Ladin (59.8) yn dilyn wedyn. Cafodd Cymru ei sgôr ranbarthol isaf gan Ganol a Dwyrain Ewrop (54.3) [Ffigur 9].

**Tabl 18: Safle a sgôr Cymru ar gyfer Mewnfudo a Buddsoddi (2020)**

| **Mewnfudo a Buddsoddi** | **Safle** | **Sgôr** |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 20 | 57.9 |
| **Priodoleddau** | | |
| Yn hoffi byw a gweithio | 20 | 53.8 |
| Ansawdd bywyd | 20 | 63.2 |
| Cymwysterau addysgol da | 20 | 59.4 |
| Busnesau i fuddsoddi ynddynt | 23 | 52.0 |
| Cydraddoldeb mewn cymdeithas | 19 | 60.4 |

*Safle a sgôr Cymru ar gyfer Mewnfudo a Buddsoddi yn ôl nodweddion demograffig*

3.87 Po fwyaf cyfarwydd yr oedd ymatebwyr â Chymru, yr uchaf yr oedd eu sgôr yn tueddu i fod ar gyfer 'Mewnfudo a Buddsoddi' [Tabl 19].

3.88 Gosododd y categori demograffig galwedigaethol "Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol" (62.0) a'r categori demograffig galwedigaethol "Eraill" (56.0) Gymru yn yr 20$^{fed}$ safle ar gyfer 'Mewnfudo a Buddsoddi' [Tabl 19].

3.89 Fel yn achos y dimensiynau eraill, roedd pobl hŷn yn tueddu i roi sgôr a safle uwch i Gymru na'r sawl a oedd yn perthyn i'r categori 18-29 oed. Ar gyfer 'Mewnfudo a Buddsoddi', cafodd Cymru ei gosod yn yr 20$^{fed}$ safle gan ymatebwyr 45+ oed a'i gosod yn y 23$^{ain}$ safle gan ymatebwyr yn y categori 18-29 oed [Tabl 19].

**Tabl 19: Safle a sgôr Cymru ar gyfer Mewnfudo a Buddsoddi yn ôl Oed, Galwedigaeth, Cysylltiad â Chymru a Chyfarwyddineb â Chymru (2020)**

| Mewnfudo a Buddsoddi | Safle | Sgôr |
|---|---|---|
| Cyfanswm | 20 | 57.9 |
| **Oed** | | |
| 18-29 | 23 | 56.9 |
| 30-44 | 20 | 59.3 |
| 45+ | 20 | 57.2 |
| **Galwedigaeth** | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 20 | 62.0 |
| Eraill | 20 | 56.0 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 20 | 58.5 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 20 | 54.8 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 20 | 60.2 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 20 | 53.5 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 20 | 55.2 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 20 | 57.4 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 20 | 59.5 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 20 | 60.0 |

*Cwestiynau Mewnfudo a Buddsoddi*

3.90 Y priodoledd lle cafodd Cymru ei sgôr uchaf o ran y dimensiwn 'Mewnfudo a Buddsoddi' oedd yng nghyswllt Cymru fel "man lle mae ansawdd bywyd yn uchel" (63.2) [Tabl 13].

*Y geiriau a gysylltir â Chymru – Mewnfudo a Buddsoddi*

3.91 Yr ansoddair a ddewiswyd amlaf gan ymatebwyr i ddisgrifio amodau economaidd ac amodau busnes yng Nghymru oedd "modern" (20%), gyda "datblygol" (18%) a "blaengar" (17%) yn dilyn wedyn [Ffigur 16].[23] [24]

**Ffigur 16: Y geiriau a gysylltir â Chymru – Mewnfudo a Buddsoddi, Ansoddeiriau a ddewiswyd i ddisgrifio amodau economaidd ac amodau busnes yng Nghymru (2020)**




[23] Yr opsiynau ar gyfer ymateb oedd: annatblygedig, datblygol, blaengar, uchelgeisiol, modern, dirywiol, diarffordd, di-fynd, dim un o'r rhain.
[24] Mewn trefn ddisgynnol, y tri ansoddair a gâi eu cysylltu leiaf aml ag amodau economaidd ac amodau busnes presennol yng Nghymru oedd "diarffordd" (7%) "dirywiol" (5%) ac "annatblygedig" (4%).


**Safleoedd Cymru o ran y priodoleddau**

3.92 Caiff safleoedd Cymru ar gyfer priodoleddau'r Mynegai Brandiau Cenhedloedd eu crynhoi ar ffurf weledol yn Ffigur 16, gan ddefnyddio'r cysyniad o hecsagon y Mynegai. Yn yr hecsagon, canol y cylch yw'r safle isaf, sef 50fed, a'r cylch allanol yw'r safle uchaf, sef 1af.

3.93 Mae Ffigur 17 yn dangos safleoedd Cymru yng nghyswllt y 23 o briodoleddau, sef Mynegeion Hecsagon y Mynegai Brandiau Cenhedloedd, ac mae'n rhoi trosolwg o'r casgliadau ar gyfer agweddau allweddol ar enw da, a fesurir gan y Mynegai Brandiau Cenhedloedd. Roedd Cymru yn yr 20 uchaf ar gyfer 10 o'r 23 o briodoleddau. Cafodd ei gosod yn ei safleoedd uchaf yng nghyswllt datganiadau ar gyfer 'Llywodraethu': mae Cymru "yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest" (17eg); "yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn gwarchod yr amgylchedd" (18fed); ac "yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn helpu i leihau tlodi yn y byd" (18fed).

3.94 Ar y llaw arall, roedd canfyddiadau'r ymatebwyr o Gymru ar eu gwannaf yng nghyswllt y priodoleddau canlynol: "cyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg" (27ain) o ran y dimensiwn 'Allforion'; "yn rhagori ym maes chwaraeon" (27ain) o ran 'Diwylliant'; a "bywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol" (31ain) o ran 'Twristiaeth' [Ffigur 17].

## Ffigur 17: Enw da Cymru ar draws y 23 o briodoleddau yn ôl safle (2020)



# 4. Canfyddiadau Cymru o Gymru

4.1 Yn ogystal â thanysgrifio er mwyn cynnwys Cymru fel un o'r 50 cenedl a oedd yn cymryd rhan yn y Mynegai Brandiau Cenhedloedd cyffredinol, cafodd Cymru ei chynnwys fel gwlad banel graidd ychwanegol. Roedd gwaith maes y Mynegai yn cynnwys 500 o ymatebwyr o Gymru yr oedd y cwestiynau a ofynnwyd iddynt yr un fath â'r rhai a ofynnwyd i'r gwledydd panel craidd, er mwyn archwilio canfyddiadau Cymru ohoni ei hun.

4.2 Cafodd Cymru ei gosod yn yr $2^{il}$ safle yn gyffredinol gan yr ymatebwyr o Gymru, y tu ôl i'r DU a oedd yn $1^{af}$ ac o flaen yr Alban a oedd yn $3^{ydd}$.[25] Cafodd Cymru ei gosod ganddi ei hun yn y 3 uchaf ar gyfer pob un o'r chwe dimensiwn, a rhoddodd y sgôr uchaf iddi ei hun (sef 79.6) a'i gosod ei hun yn $1^{af}$ yn gyffredinol ar gyfer 'Pobl'. Rhoddodd y sgôr isaf iddi ei hun (sef 70.0) a'i gosod ei hun yn $3^{ydd}$, sef y safle isaf, ar gyfer 'Allforion' [Tabl 20].

4.3 Mae Tabl 20 yn dangos y safleoedd a'r sgorau ar gyfer y dimensiynau, wedi'u gwahanu yn ôl eu priodoleddau sylfaenol. Cafodd Cymru ei gosod ganddi ei hun yn $1^{af}$ ar gyfer saith o'r 23 o briodoleddau. Dyma'r saith priodoledd dan sylw:

- 'Allforion': yn teimlo'n well/yn waeth ynglŷn â "phrynu cynnyrch/gwasanaethau", o wybod eu bod yn dod o Gymru (78.1);
- 'Diwylliant': "treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog" (78.1);
- 'Llywodraethu': "yn ymddwyn yn gyfrifol o safbwynt heddwch a diogelwch rhyngwladol" (76.7);
- 'Pobl': "yn teimlo y byddai croeso iddynt wrth ymweld â'r wlad" (79.5)
- 'Pobl': "yn hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos iddynt" (79.5)
- 'Twristiaeth': "yn ymweld pe na bai arian yn broblem" (85.0);
- 'Twristiaeth': "yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol" (85.2).

[25] Dyma'r gwledydd a gafodd eu gosod yn y 10 uchaf yn gyffredinol gan yr ymatebwyr o Gymru, mewn trefn ddisgynnol: Y DU ($1^{af}$), Cymru ($2^{il}$), Yr Alban ($3^{ydd}$), Seland Newydd ($4^{ydd}$), Canada ($5^{ed}$), Awstralia ($6^{ed}$), Yr Almaen ($7^{fed}$), Iwerddon ($8^{fed}$), Y Swistir ($9^{fed}$), Yr Eidal ($10^{fed}$).

4.4 Y safle isaf y cafodd Cymru ei gosod ynddo ganddi ei hun oedd yn 11fed am ei "bywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol" ('Twristiaeth'). Y safle isaf ond un y cafodd Cymru ei gosod ynddo ganddi ei hun oedd yn 9fed am "ansawdd bywyd" ('Mewnfudo a Buddsoddi') [Tabl 20].

**Tabl 20: Pa sgôr a roddodd Cymru iddi ei hun ar gyfer pob dimensiwn a phriodoledd, yn ôl safle a sgôr (2020)**


| NBI | Safle | Sgôr |
|---|---|---|
| Cyfanswm | **2** | **74.3** |
| **Allforion** | **3** | **70.0** |
| Cyfraniad at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg | 7 | 63.7 |
| Prynu cynnyrch/gwasanaethau | 1 | 78.1 |
| Lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl | 5 | 68.2 |
| **Llywodraethu** | **2** | **72.5** |
| Yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest | 2 | 71.5 |
| Yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg | 2 | 76.4 |
| Heddwch a diogelwch rhyngwladol | 1 | 76.7 |
| Yn gwarchod yr amgylchedd | 2 | 71.6 |
| Yn helpu i leihau tlodi yn y byd | 2 | 66.2 |
| **Diwylliant** | **2** | **71.7** |
| Yn rhagori ym maes chwaraeon | 6 | 66.7 |
| Treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog | 1 | 78.1 |
| Diwylliant cyfoes | 2 | 70.1 |
| **Pobl** | **1** | **79.5** |
| Yn teimlo y byddai croeso iddynt wrth ymweld â'r wlad | 1 | 79.5 |
| Yn hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos iddynt | 1 | 79.5 |
| Parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o'r wlad | 2 | 79.2 |
| **Twristiaeth** | **2** | **79.3** |
| Yn ymweld pe na bai arian yn broblem | 1 | 85.0 |
| Yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol | 1 | 85.2 |
| Yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion | 4 | 78.7 |
| Bywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol | 11 | 68.3 |
| **Mewnfudo a Buddsoddi** | **2** | **72.8** |
| Yn hoffi byw a gweithio ynddi | 2 | 84.3 |
| Ansawdd bywyd | 9 | 72.6 |
| Cymwysterau addysgol da | 2 | 72.3 |
| Busnesau i fuddsoddi ynddynt | 2 | 62.9 |
| Cydraddoldeb mewn cymdeithas | 2 | 71.5 |

4.5 O ran ffafrioldeb, cafodd Cymru ei gosod ganddi ei hun yn 1af allan o'r 50 cenedl a fesurwyd ar gyfer y Mynegai Brandiau Cenhedloedd, gyda sgôr o 6.4 (ar raddfa o 1.0 i 7.0 pwynt).[26]

4.6 O restr a luniwyd ymlaen llaw, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa ddwy neu dair problem yr oeddent yn teimlo bod y brys mwyaf yn perthyn iddynt ar lefel fyd-eang. Fel y dangosir yn Ffigur 18, prif bryder Cymru ar lefel fyd-eang oedd gwarchod a diogelu'r amgylchedd (42%), gyda sicrhau diogelwch bwyd a dŵr (29%) a datrys gwrthdaro treisgar (27%) yn dilyn wedyn.

[26] Sgôr fynegai wedi'i throsi ar sail ymatebion ar y raddfa o 1.0 i 7.0 ar gyfer ffafrioldeb.

## Ffigur 18: Prif bryderon Cymru ar lefel fyd-eang (2020)



# 5. Sylwadau Clo

5.1 Gan mai 2020 oedd y flwyddyn gyntaf i Gymru gymryd rhan yn arolwg Mynegai Brandiau Cenhedloedd Anholt Ipsos, dylai'r ymchwil gael ei hystyried yn ymchwil archwiliol. Roedd y data'n darparu cyfres eang y gellir ei chyffredinoli o gasgliadau am lefelau ymwybyddiaeth o Gymru a safbwyntiau ar Gymru ar lefel fyd-eang, ar sail darlun sydyn o farn ymatebwyr ar draws y dimensiynau a'r priodoleddau a fesurwyd.

5.2 Cafodd Cymru ei gosod yn yr 21$^{ain}$ safle yn gyffredinol allan o 50 o wledydd, yn hanner uchaf y Mynegai Brandiau Cenhedloedd, ac roedd ei sgôr gyffredinol yn y Mynegai yn 59.8. At ei gilydd, roedd y gwledydd a gafodd sgôr uwch na Chymru yn ddemocratiaethau ag incwm uchel, yng Ngorllewin Ewrop yn bennaf.

5.3 Cafodd Cymru sgôr gymedrig o 4.7 ar gyfer ffafrioldeb (ar raddfa o 1.0 i 7.0 pwynt), a oedd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer ffafrioldeb. Po fwyaf cyfarwydd yr oedd ymatebwyr â Chymru, yr uchaf yr oedd eu sgôr ar gyfer ffafrioldeb. Roedd ymatebwyr o wledydd cyfagos a gwledydd lle caiff Saesneg ei siarad (yn enwedig y DU, Awstralia a Chanada) yn fwy cyfarwydd â Chymru ac yn tueddu i osod Cymru mewn safle uwch, o'u cymharu â gwledydd eraill.

5.4 Ar draws y chwe dimensiwn, gofynnwyd i'r ymatebwyr sgorio 23 o briodoleddau (gweler hecsagon y Mynegai Brandiau Cenhedloedd yn Ffigur 17). Yng nghyswllt y dimensiwn 'Llywodraethu' y perfformiodd Cymru orau – cafodd ei gosod yn y 19$^{eg}$ safle – ac yng nghyswllt un o briodoleddau'r dimensiwn hwnnw y gosodwyd Cymru yn ei safle uchaf hefyd, sef yng nghyswllt "cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest" (17$^{eg}$). Y dimensiwn lle gosodwyd Cymru yn ei safle isaf oedd 'Diwylliant', a chyfrannodd ei sgôr isel ar gyfer "rhagori ym maes chwaraeon" at ei gosod yn y 29$^{ain}$ safle. Y priodoledd lle gosodwyd Cymru yn ei safle isaf ar draws pob dimensiwn oedd "bywyd dinesig bywiog" (31$^{ain}$ safle), dan 'Twristiaeth'.

5.5 Er mwyn archwilio sut yr oedd Cymru yn ei gweld ei hun, cafodd ei chynnwys fel gwlad banel ychwanegol. Cafodd Cymru ei gosod yn yr 2$^{il}$ safle yn gyffredinol ganddi ei hun, y tu ôl i'r DU, ac yn y tri uchaf ar gyfer pob un o'r dimensiynau. Prif bryder Cymru ar lefel fyd-eang oedd gwarchod a diogelu'r amgylchedd (42%).

## Cyfeiriadau


- Llywodraeth Cymru (Mai 2015). *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yr hanfodion.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

- Llywodraeth Cymru (Rhagfyr 2017). *Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

- Llywodraeth Cymru (Ionawr 2020). *Strategaeth Ryngwladol.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

## Atodiad A: Amlinelliad o'r Holiadur

Roedd holiadur Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 ar gyfer pob un o wledydd yr arolwg yn cynnwys y cwestiynau canlynol:

- Ymwybyddiaeth o'r cenhedloedd: yn gyfarwydd iawn â'r genedl, yn gyfarwydd â'r genedl, yn gwybod rhywfaint am y genedl, wedi clywed yr enw yn unig, heb glywed am y genedl
- Ffafrioldeb tuag at y cenhedloedd: (graddfa 7 pwynt: 7 = Yn eithriadol o ffafriol, 4 = Ddim yn ffafriol nac yn anffafriol, 1 = Yn eithriadol o anffafriol)
- Profiad o ymwneud â'r cenhedloedd ac agweddau atynt: wedi ymweld â'r wlad ar gyfer gwyliau, wedi ymweld â'r wlad at ddibenion busnes, wedi prynu cynnyrch neu wasanaethau o'r wlad; wedi ymweld â gwefannau o'r wlad; ffafrioldeb rhanbarthol; gwerthoedd personol
- Cwestiynau hecsagon y Mynegai Brandiau Cenhedloedd, sy'n gwestiynau graddfa safleoedd, a chwestiynau ynghylch geiriau a gysylltir â chenedl yng nghyswllt pob un o chwe dimensiwn y Mynegai. O ran y cwestiynau ar gyfer safleoedd, cafodd graddfeydd 7 pwynt wedi'u hangori ar sail 'cytuno'n gryf' ac 'anghytuno'n gryf', gyda'r pwynt canol wedi'i angori ar sail 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno' (neu eiriau angori priodol eraill), eu defnyddio:

  *Allforion:*

- yn teimlo'n well/yn waeth ynglŷn â phrynu cynnyrch o'r wlad;
- yn gwneud cyfraniad o bwys at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg;
- yn lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl;
- y categorïau o gynnyrch/gwasanaethau a gaiff eu cysylltu amlaf â phobl gwlad (cafodd mwy nag un ateb eu caniatáu yn 2009-2020; un ateb a gafodd ei ganiatáu yn 2008): Uwch-dechnoleg; Bancio; Moduro; Hysbysebu; Crefftau; Amaethyddiaeth; Ffasiwn; Bwyd; Olew; Ffilm a Theledu; Dim un o'r rhain

  *Llywodraethu:*

- yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest;
- yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg;

- yn ymddwyn yn gyfrifol o safbwynt heddwch a diogelwch rhyngwladol;
- yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn gwarchod yr amgylchedd;
- yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn helpu i leihau tlodi yn y byd;
- yr ansoddeiriau sy'n disgrifio orau y llywodraeth (un ateb a gafodd ei ganiatáu yn 2008-2020): Dibynadwy; Anrhagweladwy; Tryloyw; Ymddiriedadwy; Peryglus; Llygredig; Cysurlon; Ansefydlog; Dim un o'r rhain

*Diwylliant*:

- yn rhagori ym maes chwaraeon;
- ganddi dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog;
- yn lle diddorol/cyffrous ar gyfer diwylliant cyfoes megis cerddoriaeth, ffilmiau, celf a llenyddiaeth;
- y gweithgareddau/cynnyrch diwylliannol y disgwylid fwyaf eu gweld yn cael eu cynhyrchu (cafodd mwy nag un ateb eu caniatáu yn 2009-2020; un ateb a gafodd ei ganiatáu yn 2008): Opera; Fideos pop; Syrcas; Cerflunio; Amgueddfeydd; Carnifal stryd; Ffilmiau; Chwaraeon; Dylunio modern; Cerddoriaeth; Dim un o'r rhain

*Pobl:*

- yn hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos i fi;
- byddai'r bobl yn estyn croeso cynnes iawn i fi;
- parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o'r wlad;
- yr ansoddeiriau sy'n disgrifio orau y bobl (cafodd mwy nag un ateb eu caniatáu yn 2009-2020; un ateb a gafodd ei ganiatáu yn 2008): Gonest; Gweithgar; Diog; Anwybodus; Annibynadwy; Medrus; Hwyliog; Goddefgar; Cyfoethog; Ymosodol; Dim un o'r rhain

*Twristiaeth:*

- yn wirioneddol hoffi/casáu ymweld â'r wlad pe na bai arian yn broblem;
- yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol;
- yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion;
- ganddi fywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol;
- y geiriau sy'n disgrifio orau y profiad o ymweld â'r wlad (cafodd mwy nag un ateb eu caniatáu yn 2009-2020; un ateb a gafodd ei ganiatáu yn 2008): Rhamantus; Digalon; Cyffrous; Diflas; Cyfareddol; Peryglus; Addysgiadol; Trafferthus; Ysbrydol; Hamddenol; Dim un o'r rhain

*Mewnfudo a Buddsoddi:*

- parodrwydd i fyw a gweithio am gyfnod hir;
- yn fan lle mae ansawdd bywyd yn uchel;
- yn lle da i astudio ar gyfer cymwysterau addysgol;
- ganddi fusnesau yr hoffwn fuddsoddi ynddynt;
- yn wlad sy’n poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas;
- y gair sy’n disgrifio orau yr amodau economaidd a’r amodau busnes presennol yng Nghymru (un ateb a gafodd ei ganiatáu yn 2008-2020): Annatblygedig; Datblygol; Blaengar: Uchelgeisiol; Modern; Dirywiol; Diarffordd: Di-fynd: Dim un o’r rhain

- Cwestiynau demograffig safonol a oedd yn cynnwys rhai am oed yr ymatebwyr, eu rhywedd, y math o ardal yr oeddent yn byw ynddi, eu haddysg, eu statws o ran cyflogaeth, eu proffesiwn a’u hincwm, ac am eu rhanbarth daearyddol a’u hil/ethnigrwydd os oedd hynny’n berthnasol

## Atodiad B: Safle Cymru a’i sgorau cymedrig a’i sgorau wedi’u trosi ar gyfer y dimensiynau a’r priodoleddau, yn ôl grŵp demograffig

Mae’r Atodiad hwn yn cynnwys tablau o safle Cymru a’i sgorau cymedrig ar raddfa Likert a’i sgorau wedi’u trosi ar gyfer pob un o’r chwe dimensiwn a’u priodoleddau sylfaenol, wedi’u rhannu yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb.

**Tabl B.1: Safle Cymru a’i sgorau cymedrig a’i sgorau wedi’u trosi ar gyfer priodoleddau *Diwylliant* yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb (2020)**

| **Diwylliant: ganddi dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog** | **Safle** | **Sgôr gymedrig** | **Sgôr wedi’i throsi** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 24 | - | 63.4 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 37 | 4.6 | 60.1 |
| 30-44 | 25 | 4.8 | 64.2 |
| 45+ | 21 | 4.9 | 65.4 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 23 | 5.0 | 67.3 |
| Eraill | 26 | 4.7 | 61.7 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 23 | 4.8 | 64.2 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 25 | 4.6 | 60.6 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 24 | 4.9 | 64.9 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 25 | 4.6 | 60.9 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 26 | 4.6 | 60.9 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 24 | 4.8 | 63.2 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 24 | 4.9 | 64.7 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 24 | 4.9 | 65.5 |

| Diwylliant: yn lle diddorol/cyffrous ar gyfer diwylliant cyfoes megis cerddoriaeth, ffilmiau, celf a llenyddiaeth | Safle | Sgôr gymedrig | Sgôr wedi'i throsi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 26 | - | 56.8 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 35 | 4.3 | 55.5 |
| 30-44 | 28 | 4.4 | 57.6 |
| 45+ | 20 | 4.4 | 56.9 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 26 | 4.6 | 59.6 |
| Eraill | 26 | 4.3 | 55.5 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 26 | 4.4 | 57.1 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 29 | 4.3 | 55.3 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 27 | 4.5 | 58.3 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 22 | 4.2 | 54.0 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 26 | 4.2 | 54.5 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 26 | 4.3 | 55.9 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 27 | 4.4 | 57.4 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 27 | 4.5 | 58.3 |

| Diwylliant: yn rhagori ym maes chwaraeon | Safle | Sgôr gymedrig | Sgôr wedi'i throsi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 27 | - | 53.3 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 31 | 4.1 | 52.2 |
| 30-44 | 30 | 4.2 | 54.3 |
| 45+ | 27 | 4.2 | 53.3 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 28 | 4.3 | 60.0 |
| Eraill | 27 | 4.1 | 52.2 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 27 | 4.2 | 53.5 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 29 | 4.1 | 52.5 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 28 | 4.2 | 54.5 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 27 | 4.0 | 51.2 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 27 | 4.0 | 51.2 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 27 | 4.1 | 52.3 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 27 | 4.2 | 53.6 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 28 | 4.2 | 54.1 |

**Tabl B.2: Safle Cymru a'i sgorau cymedrig a'i sgorau wedi'u trosi ar gyfer priodoleddau Allforion yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb (2020)**

| **Allforion: yn gwneud cyfraniad o bwys at arloesi ym maes gwyddoniaeth a thechnoleg** | **Safle** | **Sgôr gymedrig** | **Sgôr wedi'i throsi** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 27 | - | 51.8 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 29 | 4.0 | 50.7 |
| 30-44 | 27 | 4.2 | 53.0 |
| 45+ | 26 | 4.1 | 51.5 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 27 | 4.2 | 54.3 |
| Eraill | 27 | 4.0 | 50.7 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 26 | 4.1 | 52.3 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 30 | 4.0 | 49.7 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 28 | 4.1 | 52.8 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 26 | 4.0 | 49.7 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 28 | 3.9 | 49.2 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 27 | 4.0 | 50.7 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 27 | 4.1 | 52.3 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 27 | 4.2 | 53.1 |

| Allforion: yn teimlo'n well/yn waeth ynglŷn â phrynu cynnyrch o'r wlad | Safle | Sgôr gymedrig | Sgôr wedi'i throsi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 22 | - | 56.0 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 30 | 4.2 | 54.1 |
| 30-44 | 24 | 4.4 | 56.9 |
| 45+ | 20 | 4.4 | 56.4 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 22 | 4.6 | 59.7 |
| Eraill | 22 | 4.2 | 54.3 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 21 | 4.4 | 56.9 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 26 | 4.1 | 52.2 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 22 | 4.4 | 57.4 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 20 | 4.2 | 53.1 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 21 | 4.2 | 53.3 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 21 | 4.3 | 55.5 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 22 | 4.4 | 57.4 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 22 | 4.5 | 58.1 |

| Allforion: yn lle creadigol â syniadau blaengar a ffyrdd newydd o feddwl | Safle | Sgôr gymedrig | Sgôr wedi'i throsi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 26 | - | 55.1 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 30 | 4.2 | 54.1 |
| 30-44 | 27 | 4.4 | 56.4 |
| 45+ | 24 | 4.3 | 54.6 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 25 | 4.5 | 58.3 |
| Eraill | 26 | 4.2 | 53.8 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 26 | 4.3 | 55.6 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 29 | 4.2 | 53.0 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 26 | 4.4 | 56.6 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 25 | 4.1 | 52.2 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 26 | 4.1 | 52.5 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 26 | 4.2 | 54.1 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 26 | 4.3 | 55.9 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 26 | 4.4 | 56.9 |

**Tabl B.3: Safle Cymru a'i sgorau cymedrig a'i sgorau wedi'u trosi ar gyfer priodoleddau *Llywodraethu* yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb (2020)**

| **Llywodraethu: yn cael ei llywodraethu'n gymwys ac yn onest** | **Safle** | **Sgôr gymedrig** | **Sgôr wedi'i throsi** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 17 | | 60.7 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 19 | 4.4 | 57.4 |
| 30-44 | 19 | 4.6 | 60.4 |
| 45+ | 17 | 4.8 | 63.2 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 17 | 4.9 | 64.7 |
| Eraill | 18 | 4.5 | 58.9 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 17 | 4.7 | 61.6 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 19 | 4.4 | 57.3 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 17 | 4.7 | 61.9 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 17 | 4.5 | 58.6 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 17 | 4.5 | 58.4 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 17 | 4.6 | 60.4 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 17 | 4.7 | 62.4 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 17 | 4.7 | 62.4 |

| Llywodraethu: yn parchu hawliau ei dinasyddion ac yn eu trin yn deg | Safle | Sgôr gymedrig | Sgôr wedi'i throsi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 19 | | 63.9 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 20 | 4.5 | 59.4 |
| 30-44 | 19 | 4.8 | 63.9 |
| 45+ | 16 | 5.0 | 67.3 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 17 | 5.1 | 68.5 |
| Eraill | 19 | 4.7 | 61.9 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 19 | 4.9 | 64.9 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 19 | 4.6 | 59.7 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 19 | 4.9 | 65.2 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 16 | 4.7 | 61.6 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 19 | 4.7 | 61.6 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 18 | 4.8 | 63.9 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 19 | 4.9 | 65.5 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 19 | 4.9 | 65.8 |

| Llywodraethu: yn ymddwyn yn gyfrifol o safbwynt heddwch a diogelwch rhyngwladol | Safle | Sgôr gymedrig | Sgôr wedi'i throsi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 19 | | 62.4 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 20 | 4.5 | 58.8 |
| 30-44 | 19 | 4.7 | 61.7 |
| 45+ | 16 | 4.9 | 65.5 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 19 | 5.0 | 66.2 |
| Eraill | 19 | 4.6 | 60.7 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 19 | 4.8 | 63.4 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 19 | 4.5 | 58.1 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 19 | 4.8 | 63.7 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 19 | 4.6 | 59.9 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 19 | 4.6 | 60.1 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 19 | 4.7 | 62.2 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 19 | 4.8 | 64.0 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 19 | 4.8 | 64.4 |

| **Llywodraethu: yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn gwarchod yr amgylchedd** | **Safle** | **Sgôr gymedrig** | **Sgôr wedi'i throsi** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 18 | | 59.9 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 20 | 4.4 | 57.1 |
| 30-44 | 20 | 4.6 | 60.6 |
| 45+ | 16 | 4.7 | 61.6 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 17 | 4.8 | 63.7 |
| Eraill | 18 | 4.5 | 58.4 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 17 | 4.6 | 60.6 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 19 | 4.4 | 57.8 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 19 | 4.7 | 61.6 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 16 | 4.4 | 57.1 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 19 | 4.4 | 57.8 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 17 | 4.6 | 59.6 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 18 | 4.7 | 61.4 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 17 | 4.7 | 61.9 |

| **Llywodraethu: yn ymddwyn yn gyfrifol er mwyn helpu i leihau tlodi yn y byd** | **Safle** | **Sgôr gymedrig** | **Sgôr wedi'i throsi** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 18 | | 58.5 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 20 | 4.2 | 54.1 |
| 30-44 | 19 | 4.4 | 56.6 |
| 45+ | 16 | 4.4 | 57.1 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 18 | 4.5 | 59.4 |
| Eraill | 19 | 4.3 | 54.6 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 18 | 4.4 | 56.8 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 20 | 4.2 | 53.1 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 18 | 4.4 | 57.6 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 19 | 4.2 | 53.1 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 18 | 4.2 | 54.1 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 18 | 4.3 | 55.5 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 18 | 4.4 | 57.1 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 18 | 4.5 | 57.9 |

**Tabl B.4: Safle Cymru a'i sgorau cymedrig a'i sgorau wedi'u trosi ar gyfer priodoleddau Mewnfudo a Buddsoddi yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb (2020)**

| Mewnfudo a Buddsoddi: parodrwydd i fyw a gweithio am gyfnod hir | Safle | Sgôr gymedrig | Sgôr wedi'i throsi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 20 | | 53.8 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 22 | 4.3 | 54.6 |
| 30-44 | 20 | 4.3 | 55.5 |
| 45+ | 18 | 4.1 | 52.0 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 20 | 4.5 | 59.1 |
| Eraill | 20 | 4.1 | 51.7 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 20 | 4.3 | 54.8 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 21 | 4.0 | 50.0 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 20 | 4.4 | 57.3 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 19 | 3.8 | 47.5 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 20 | 4.0 | 50.8 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 20 | 4.2 | 53.5 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 20 | 4.4 | 56.3 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 20 | 4.4 | 56.6 |

| Mewnfudo a Buddsoddi: yn fan lle mae ansawdd bywyd yn uchel | | | |
|---|---|---|---|
| | **Safle** | **Sgôr gymedrig** | **Sgôr wedi'i throsi** |
| Cyfanswm | 20 | - | 63.2 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 21 | 4.6 | 60.7 |
| 30-44 | 20 | 4.9 | 64.7 |
| 45+ | 20 | 4.8 | 64.0 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 20 | 5.0 | 67.0 |
| Eraill | 20 | 4.7 | 61.6 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 20 | 4.8 | 64.0 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 20 | 4.6 | 60.1 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 20 | 4.9 | 65.0 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 20 | 4.6 | 60.1 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 20 | 4.6 | 60.9 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 20 | 4.8 | 63.0 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 20 | 4.9 | 64.9 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 20 | 4.9 | 65.4 |

| Mewnfudo a Buddsoddi: yn lle da i astudio ar gyfer cymwysterau addysgol | | | |
|---|---|---|---|
| | **Safle** | **Sgôr gymedrig** | **Sgôr wedi'i throsi** |
| Cyfanswm | 20 | - | 59.4 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 24 | 4.5 | 57.9 |
| 30-44 | 19 | 4.6 | 60.9 |
| 45+ | 20 | 4.5 | 59.4 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 20 | 4.8 | 63.2 |
| Eraill | 20 | 4.5 | 57.9 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 20 | 4.6 | 60.2 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 20 | 4.4 | 56.4 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 20 | 4.7 | 61.6 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 20 | 4.3 | 55.8 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 20 | 4.4 | 57.1 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 20 | 4.5 | 59.1 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 20 | 4.6 | 60.9 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 20 | 4.7 | 61.4 |

| Mewnfudo a Buddsoddi: ganddi fusnesau yr hoffwn fuddsoddi ynddynt | Safle | Sgôr gymedrig | Sgôr wedi'i throsi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 23 | - | 52.0 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 30 | 4.2 | 53.1 |
| 30-44 | 25 | 4.3 | 54.6 |
| 45+ | 21 | 3.9 | 48.9 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 22 | 4.3 | 56.1 |
| Eraill | 24 | 4.0 | 50.2 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 22 | 4.1 | 52.5 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 25 | 4.0 | 50.0 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 24 | 4.3 | 55.0 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 21 | 3.8 | 46.5 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 23 | 3.9 | 49.0 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 22 | 4.0 | 51.2 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 22 | 4.2 | 53.5 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 22 | 4.2 | 54.1 |

| Mewnfudo a Buddsoddi: yn wlad sy'n poeni am gydraddoldeb mewn cymdeithas | Safle | Sgôr gymedrig | Sgôr wedi'i throsi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 19 | - | 60.4 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 20 | 4.5 | 57.9 |
| 30-44 | 19 | 4.6 | 61.1 |
| 45+ | 16 | 4.7 | 61.9 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 18 | 4.9 | 64.7 |
| Eraill | 18 | 4.5 | 58.6 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 18 | 4.7 | 61.2 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 19 | 4.4 | 57.4 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 19 | 4.7 | 62.1 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 17 | 4.4 | 57.4 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 18 | 4.5 | 58.1 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 18 | 4.6 | 60.1 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 19 | 4.7 | 61.9 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 19 | 4.7 | 62.2 |

**Tabl B.5: Safle Cymru a'i sgorau cymedrig a'i sgorau wedi'u trosi ar gyfer priodoleddau Pobl yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb (2020)**

| **Pobl: yn hoffi cael person o'r wlad yn ffrind agos i fi** | **Safle** | **Sgôr gymedrig** | **Sgôr wedi'i throsi** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 22 | - | 62.1 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 32 | 4.6 | 60.2 |
| 30-44 | 24 | 4.7 | 62.6 |
| 45+ | 18 | 4.8 | 63.0 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 21 | 4.9 | 65.7 |
| Eraill | 22 | 4.6 | 60.4 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 22 | 4.7 | 62.7 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 25 | 4.5 | 58.9 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 23 | 4.8 | 64.2 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 21 | 4.5 | 57.9 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 22 | 4.6 | 59.7 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 22 | 4.7 | 61.6 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 21 | 4.8 | 63.5 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 22 | 4.8 | 64.4 |

| Pobl: byddai'r bobl yn estyn croeso cynnes iawn i fi | Safle | Sgôr gymedrig | Sgôr wedi'i throsi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 21 | - | 62.5 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 26 | 4.5 | 59.4 |
| 30-44 | 22 | 4.7 | 62.6 |
| 45+ | 18 | 4.9 | 64.7 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 18 | 5.0 | 66.5 |
| Eraill | 22 | 4.6 | 60.7 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 21 | 4.8 | 63.5 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 23 | 4.5 | 58.1 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 21 | 4.8 | 63.9 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 20 | 4.6 | 59.9 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 21 | 4.6 | 60.4 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 21 | 4.7 | 62.1 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 21 | 4.8 | 64.0 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 21 | 4.9 | 64.5 |

| Pobl: parodrwydd i gyflogi pobl â chymwysterau da o'r wlad | Safle | Sgôr gymedrig | Sgôr wedi'i throsi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 20 | - | 68.7 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 25 | 4.8 | 64.2 |
| 30-44 | 21 | 5.0 | 66.7 |
| 45+ | 20 | 5.0 | 67.3 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 20 | 5.2 | 70.0 |
| Eraill | 20 | 4.9 | 64.5 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 20 | 5.0 | 67.2 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 20 | 4.7 | 61.2 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 20 | 5.1 | 68.2 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 20 | 4.7 | 62.6 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 20 | 4.8 | 63.7 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 20 | 5.0 | 66.3 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 20 | 5.0 | 67.7 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 20 | 5.1 | 68.5 |

**Tabl B.6: Safle Cymru a'i sgorau cymedrig a'i sgorau wedi'u trosi ar gyfer priodoleddau Twristiaeth yn ôl oed, galwedigaeth, cysylltiad a chyfarwyddineb (2020)**

| **Twristiaeth: yn wirioneddol hoffi/casáu ymweld â'r wlad pe na bai arian yn broblem** | **Safle** | **Sgôr gymedrig** | **Sgôr wedi'i throsi** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 21 | - | 65.4 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 29 | 4.8 | 63.2 |
| 30-44 | 22 | 5.0 | 66.3 |
| 45+ | 20 | 5.0 | 66.2 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 21 | 5.2 | 70.6 |
| Eraill | 21 | 4.8 | 63.0 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 21 | 5.0 | 66.8 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 21 | 4.5 | 59.4 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 21 | 5.1 | 67.8 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 21 | 4.6 | 60.9 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 21 | 4.7 | 62.4 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 21 | 4.9 | 65.7 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 21 | 5.1 | 68.0 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 21 | 5.1 | 68.0 |

| Twristiaeth: yn gyfoethog o safbwynt harddwch naturiol | | | |
|---|---|---|---|
| | **Safle** | **Sgôr gymedrig** | **Sgôr wedi'i throsi** |
| Cyfanswm | 23 | | 68.0 |
| **Oed** | | | e |
| 18-29 | 32 | 4.8 | 64.4 |
| 30-44 | 26 | 5.1 | 68.3 |
| 45+ | 18 | 5.2 | 70.6 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 22 | 5.3 | 71.5 |
| Eraill | 25 | 5.0 | 66.5 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 24 | 5.1 | 69.0 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 27 | 4.8 | 64.2 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 27 | 5.1 | 69.2 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 20 | 4.9 | 66.0 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 24 | 4.9 | 65.7 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 23 | 5.1 | 68.0 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 24 | 5.1 | 69.3 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 25 | 5.2 | 70.0 |

| Twristiaeth: yn gyfoethog o safbwynt adeiladau hanesyddol a henebion | | | |
|---|---|---|---|
| | **Safle** | **Sgôr gymedrig** | **Sgôr wedi'i throsi** |
| Cyfanswm | 23 | | 63.5 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 32 | 4.6 | 61.1 |
| 30-44 | 21 | 4.9 | 64.9 |
| 45+ | 21 | 4.9 | 64.5 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 23 | 5.0 | 67.0 |
| Eraill | 22 | 4.7 | 62.2 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 23 | 4.8 | 64.4 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 23 | 4.6 | 60.6 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 26 | 4.9 | 64.7 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 20 | 4.7 | 61.6 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 23 | 4.7 | 61.2 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 23 | 4.8 | 63.2 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 24 | 4.9 | 64.7 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 23 | 4.9 | 65.4 |

| Twristiaeth: ganddi fywyd dinesig bywiog ac atyniadau trefol | Safle | Sgôr gymedrig | Sgôr wedi'i throsi |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm | 31 | | 60.7 |
| **Oed** | | | |
| 18-29 | 36 | 4.6 | 59.9 |
| 30-44 | 32 | 4.7 | 61.9 |
| 45+ | 25 | 4.6 | 60.6 |
| **Galwedigaeth** | | | |
| Pobl fusnes / Swyddogion gweithredol | 31 | 4.8 | 64.0 |
| Eraill | 31 | 4.5 | 59.4 |
| **Cysylltiad â Chymru** | | | |
| Wedi ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 32 | 4.7 | 61.2 |
| Heb ymweld â Chymru ar gyfer gwyliau | 31 | 4.5 | 58.8 |
| Wedi mynd i wefan Gymreig | 33 | 4.7 | 62.2 |
| Heb fynd i wefan Gymreig | 26 | 4.5 | 58.1 |
| **Cyfarwyddineb â Chymru** | | | |
| Heb glywed am Gymru / Wedi clywed yr enw yn unig | 30 | 4.5 | 58.4 |
| Yn gwybod rhywfaint am Gymru | 30 | 4.6 | 60.1 |
| Yn gyfarwydd â Chymru | 33 | 4.7 | 61.7 |
| Yn gyfarwydd iawn â Chymru | 33 | 4.7 | 62.4 |

## Atodiad C: Mynegai Brandiau Cenhedloedd 2020, Canfyddiadau rhyngwladol o ymateb Cymru i argyfyngau gofal iechyd


Gofynnodd Ipsos-Mori rai cwestiynau ychwanegol yn rhan o'i Fynegai Brandiau Cenhedloedd 2020 er mwyn mesur canfyddiadau ynghylch sut y mae gwledydd wedi ymdrin yn gyffredinol ag argyfyngau iechyd (megis COVID-19); a pha mor gyffyrddus y byddai ymwelwyr yn teimlo wrth ymweld yn ystod y pum mlynedd nesaf â'r 50 cenedl a fesurwyd.[27]

Mae'n bwysig nodi mai dealltwriaeth gyfyngedig fyddai gan y cyhoedd, adeg cynnal y gwaith maes hwn (ym mis Awst 2020), ynghylch tonnau o COVID-19 yn y dyfodol a'u cyfnodau clo cysylltiedig; y gwahanol amrywiolion a fyddai'n peri pryder; a llwyddiant y rhaglen frechu, nifer y bobl a fyddai'n cael eu brechu a'r broses o gyflwyno'r rhaglen. Dylech gyfeirio at baragraff 2.31 y prif adroddiad i gael rhagor o wybodaeth am ystyriaethau data.

### Y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd, barn ar draws ymatebwyr o'r 20 o wledydd panel craidd[28]

Ymhlith yr ymatebwyr ar draws yr 20 o wledydd panel craidd, rhoddodd bron un o bob tri (32%) sgôr ffafriol i Gymru am y modd y mae'n ymdrin ag argyfyngau iechyd, o gymharu â bron un o bob deg (12%) a roddodd sgôr anffafriol i Gymru. Nid oedd gan dros hanner yr ymatebwyr (55%) unrhyw farn o gwbl [Ffigur C.1].

**Ffigur C.1: Y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau iechyd (%) (gan gynnwys COVID-19) (2020)**





[27] Cyhoeddodd Ipsos flog a oedd yn crynhoi rhai o'r canlyniadau byd-eang ynglŷn â'r cwestiynau am argyfyngau iechyd (ar 25 Awst 2020): https://www.ipsos.com/en-us/handling-health-crises-impacts-overall-favorability-towards-nations [Cyrchwyd 18 Mehefin 2021]

[28] Mae rhestr a map o'r 20 o wledydd panel craidd i'w gweld yn Nhabl 1 a Ffigur 3 y prif adroddiad.

Ar sail sut y gwnaeth Cymru ymateb i argyfyngau iechyd, dywedodd ychydig dros un o bob tri (35%) y byddent yn teimlo’n gyffyrddus wrth ymweld â Chymru yn ystod y pum mlynedd nesaf, o gymharu ag un o bob pump (21%) a ddywedodd y byddent yn teimlo’n anghyffyrddus. Dywedodd ychydig dros ddau o bob pump (44%) na fyddent yn teimlo’n gyffyrddus nac yn anghyffyrddus [Ffigur C.2].

**Ffigur C.2: Ymatebwyr y Mynegai Brandiau Cenhedloedd a fyddai’n teimlo yn gyffyrddus wrth ymweld â Chymru yn ystod y pum mlynedd nesaf (%) (2020)**




**Safle Cymru allan o 50 cenedl[29] yng nghyswllt ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd**

Yn gyffredinol, cafodd Cymru ei gosod yn y 19eg safle (cymedr o 4.34 o 7) allan o 50 cenedl yng nghyswllt canfyddiadau o’r modd y mae’n ymdrin ag argyfyngau iechyd (megis COVID-19).

Cafodd Cymru ei gosod yn ei safle uchaf (6ed safle) gan y DU, yna gan Dde Affrica (14eg safle), gydag Awstralia a Chanada yn dilyn wedyn (16eg safle). Cafodd Cymru ei gosod yn ei safleoedd isaf gan India a Rwsia (24ain safle), yr Aifft (25ain safle) ac yna Mecsico (27ain safle).

**Sgorau cymedrig Cymru yng nghyswllt ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd**

Mae Tabl C.1 isod yn dangos y sgorau cymedrig uchaf ar gyfer y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd (gan gynnwys COVID-19) gan bob un o’r 20 o wledydd panel craidd, yn ogystal â’r safle a ddyfarnwyd gan ymatebwyr y gwledydd hynny.

[29] Mae rhestr a map o’r 50 cenedl a fesurwyd i’w gweld yn Nhabl 4 a Ffigur 2 y prif adroddiad.

**Tabl C.1: Sgorau cymedrig uchaf y gwledydd panel craidd ar gyfer y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd**

| Gwlad | Sgôr cymedrig | Safle Cymru (o 50) |
|---|---:|---:|
| India | 5.0 | 24 |
| Tseinia | 4.9 | 17 |
| Yr Aifft | 4.7 | 25 |
| Y DU | 4.7 | 6 |
| De Affrica | 4.6 | 14 |

Mae Tabl C.2 yn dangos y sgorau cymedrig isaf ar gyfer y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd (gan gynnwys COVID-19) gan bob un o'r 20 o wledydd panel craidd, yn ogystal â'r safle a ddyfarnwyd gan ymatebwyr y gwledydd hynny.

**Tabl C.2: Sgorau cymedrig isaf y gwledydd panel craidd ar gyfer y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd**

| Gwlad | Sgôr cymedrig | Safle Cymru (o 50) |
|---|---:|---:|
| Ffrainc | 4.1 | 18 |
| Yr Eidal | 4.1 | 19 |
| Twrci | 4.0 | 23 |
| De Corea | 3.9 | 21 |
| Japan | 3.9 | 21 |

**Safle allan o 50 cenedl yng nghyswllt pa mor gyffyrddus y byddai ymatebwyr yn teimlo wrth ymweld â Chymru yn ystod y pum mlynedd nesaf, ar sail y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd**

Yn gyffredinol, cafodd Cymru ei gosod yn yr 17eg safle (cymedr o 4.2 o 7) allan o 50 cenedl yng nghyswllt pa mor gyffyrddus y byddai ymatebwyr yn teimlo wrth ymweld â Chymru yn ystod y pum mlynedd nesaf, ar sail y modd y mae'n ymateb i argyfyngau iechyd.

Cafodd Cymru ei gosod yn ei safle uchaf (4ydd safle) gan y DU, yna gan Awstralia (8fed safle) ac yna gan Dde Affrica (12fed safle). Cafodd Cymru ei gosod yn ei safleoedd isaf gan Dde Corea (28ain safle), yr Aifft (30ain safle) ac India (31ain safle).

**Sgorau cymedrig yng nghyswllt pa mor gyffyrddus y byddai ymatebwyr yn teimlo wrth ymweld â Chymru yn ystod y pum mlynedd nesaf, ar sail y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd**

Mae Tabl C.3 isod yn dangos y sgorau cymedrig uchaf yng nghyswllt pa mor gyffyrddus y byddai ymatebwyr yn teimlo wrth ymweld â Chymru yn ystod y pum mlynedd nesaf, ar sail y

modd y mae'n ymateb i argyfyngau iechyd (gan gynnwys COVID-19) gan bob un o'r 20 o wledydd panel craidd, yn ogystal â'r safle a ddyfarnwyd gan ymatebwyr y gwledydd hynny.

**Tabl C.3: Sgorau cymedrig uchaf y gwledydd panel craidd ar gyfer ymweld â Chymru, ar sail y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd**

| Gwlad | Sgôr cymedrig | Safle Cymru (o 50) |
|---|---:|---:|
| Tseinia | 4.8 | 22 |
| India | 4.8 | 31 |
| Y DU | 4.7 | 4 |
| Yr Aifft | 4.6 | 30 |
| De Affrica | 4.5 | 12 |

Mae Tabl C.4 isod yn dangos y sgorau cymedrig isaf yng nghyswllt pa mor gyffyrddus y byddai ymatebwyr yn teimlo wrth ymweld â Chymru yn ystod y pum mlynedd nesaf, ar sail y modd y mae'n ymateb i argyfyngau iechyd (gan gynnwys COVID-19) gan bob un o'r 20 o wledydd panel craidd, yn ogystal â'r safle a ddyfarnwyd gan ymatebwyr y gwledydd hynny.

**Tabl C.4: Sgorau cymedrig isaf y gwledydd panel craidd ar gyfer ymweld â Chymru, ar sail y modd y mae Cymru yn ymdrin ag argyfyngau gofal iechyd**

| Gwlad | Sgôr cymedrig | Safle Cymru (o 50) |
|---|---:|---:|
| Ariannin | 4.3 | 21 |
| Canada | 3.1 | 16 |
| De Corea | 3.8 | 28 |
| Twrci | 3.1 | 24 |
| Japan | 3.1 | 22 |